




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder



Gwasanaeth Llysoedd  
a Thribiwnlysoedd EM

# Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth yr ystad llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 11 Chwefror 2016







Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder



Gwasanaeth Llysoedd  
a Thribiwnlysoedd EM

## **Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth yr ystad llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr**

**Ymateb Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, i'r ymgynghoriad. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn [www.gov.uk/moj](http://www.gov.uk/moj)**



## Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	3
Rhagair	4
Cefndir	6
Strategaeth Ystadau Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM	8
Ymatebion cenedlaethol	11
Ymatebion i themâu penodol	14
Egwyddorion ymgynghori	29
Atodiad A Rhestr o ymatebwyr	30
Atodiad B Datganiad Effaith ar Gydraddoldeb	33

---



## Cyflwyniad a manylion cyswllt

Adroddiad yw'r ddogfen hon sy'n dilyn ymgynghoriad ar y papur ymgynghori 'Cynnig ar ddarpariaeth yr ystad llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr'.

Bydd yn sôn am y canlynol:

- cefndir yr ymgynghoriad
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- ymateb manwl i'r pwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad.

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori trwy gysylltu â GLITEM yn y cyfeiriad isod:

### **Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

**102 Petty France**

**Llundain SW1H 9AJ**

**Ffôn: 0161 240 5021**

**Ffacs: 0870 761 7768**

**E-bost: [estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk)**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn **[www.gov.uk/moj](http://www.gov.uk/moj)**

Gellir gwneud cais am fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn gan **[estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk)** neu drwy ffonio **0161 240 5021**

### **Cwynion neu sylwadau**

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y [broses](#) ymgynghori, dylech gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y cyfeiriad uchod.

## Rhagair

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i foderneiddio'r ffordd a ddefnyddir i sicrhau cyfiawnder yn ogystal â'r ffordd o gael mynediad at gyfiawnder. Rydym yn buddsoddi dros £700m yn ystod y 4 blynedd nesaf i ddiweddarau ystad y llysoedd, gan osod systemau TG modern a gwneud y system gyfiawnder yn fwy effeithlon ac effeithiol i ddefnyddwyr modern.

Fel y mae Syr Brian Leveson ac, yn fwy diweddar, yr Arglwydd Ustus Briggs wedi'i grybwyll<sup>1</sup>, rydym yn symud yn ddiwrthdro at gael system gyfiawnder sy'n gorfod bod yn hygyrch drwy wasanaethau ar-lein yn ogystal ag adeiladau llysoedd traddodiadol.

Mewn cymdeithas lle mae pobl yn defnyddio dulliau digidol i drin a thrafod cymaint o agweddau ar fywyd, maent yn disgwyl i wasanaeth fod ar gael iddynt pan mae angen y gwasanaeth hwnnw arnynt. Felly, nid oes modd diffinio mynediad at gyfiawnder yn gyfan gwbl yn ôl pa mor agos mae rhywun at adeilad llys neu driwlynlys. Rhaid ei ddiffinio yn ôl pa mor hawdd yw hi i bobl – tystion, dioddefwyr, hawlwyr, yr heddlu a chyfreithwyr – gael mynediad at y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, pa bynnag ffordd y maent yn dewis gwneud hynny.

Gan weithio'n agos â'r farnwriaeth, rydym wedi dechrau gosod systemau digidol a Wi-Fi yn ein llysoedd troseddol ond mae angen gwneud llawer mwy. Rydym yn awyddus i ddefnyddio technoleg fodern, gan gynnwys systemau fideo-gynadledda a systemau ar-lein ar gyfer cyflwyno ple, tystiolaeth a hawliadau, i leihau'r angen i bobl deithio i'r llys. Yn y dyfodol, dim ond ar gyfer yr achosion mwyaf sensitif neu gymhleth y dylid defnyddio gwrandawliadau wyneb-yn-wyneb.

Fel rhan o'r moderneiddio, rhaid diweddarau ystad y llysoedd. Nid yw llawer o'r 460 o adeiladau llys sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio digon: y llynedd cafodd bron i hanner yr holl ystafelloedd llys eu defnyddio lai na hanner yr amser eistedd arferol. Maent yn ddrud i'w cynnal ond yn anaddas ar gyfer technoleg fodern. Mae'r buddsoddiad rydym yn ei wneud er mwyn diweddarau'r system gyfiawnder yn gofyn i ni adolygu a moderneiddio'r ystad ei hun hefyd. Yn y pen draw, o ganlyniad i hyn, bydd gennym wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd sy'n fwy effeithlon ac yn canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr.

Ar 16 Gorffennaf 2015 cyhoeddais ymgynghoriad ar gynigion i gau 91 o lysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Cafwyd dros 2,100 o ymatebion unigol, ynghyd â 13 deiseb, a oedd yn cynnwys dros 10,000 o lofnodion. Rwy'n ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i roi eu barn. Mae'n amlwg o'r ymatebion bod pobl yn gweld gwerth mawr o hyd yn y gwasanaeth a ddarperir gan ein llysoedd a'n thriwlynlysoedd.

Rhaid mynd ati'n ofalus i bwysu a mesur y penderfyniad i gau llys neu driwlynlys. Ar gyfer pob lleoliad, rwyf wedi ystyried a fyddai cau yn dal i sicrhau mynediad effeithiol at gyfiawnder, a yw hyn yn arbed arian sylweddol, ac a fyddai hyn yn caniatáu i Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM gynnal darpariaeth gwasanaeth o safon uchel. Os yw'r amodau hyn wedi'u bodloni, rydym wedi penderfynu cau'r llys neu'r thriwlynlys.

---

<sup>1</sup> *Review of Efficiency in Criminal Proceedings*, Syr Brian Leveson, Ionawr 2015; *Civil Courts Structure Review*, adroddiad interim, Yr Arglwydd Ustus Briggs, Ionawr 2016



Ar y sail hon rydym wedi penderfynu cau 86 o adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd a chadw pump. Bydd 64 safle yn cau yn unol â'r cynigion yn yr ymgynghoriad a bydd 22 arall yn cau ond gyda newidiadau i'r cynigion gwreiddiol. Mae llawer o'r newidiadau hyn wedi'u cynnig gan yr ymatebwyr, ac maent yn cynnwys sefydlu lleoliadau eraill addas, fel defnyddio adeiladau dinesig lleol; neu leoliadau yn ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n wahanol i'r rheini a gynigiwyd yn wreiddiol. Rwyf yn ddiolchgar dros ben i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad i'n helpu i gael yr atebion gorau.

Mae'r ddogfen ymateb hon yn darparu rhestr o bob llys a thribiwnlys yr ymgynghorwyd yn eu cylch a'r penderfyniad ym mhob achos, ynghyd ag amserlen ddangosol ar gyfer cau adeiladau. Mae esboniad llawn am y penderfyniad i gau neu gadw llys wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymateb rhanbarthol i'r ymgynghoriad a fydd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr.

**Shailesh Vara**

**Is-ysgrifennydd Seneddol Llysoedd a Chymorth Cyfreithiol**

## Cefndir

Cafodd y papur ymgynghori "Cynnig ar ddarpariaeth yr ystad llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr" ei gyhoeddi ar 16 Gorffennaf 2015. Roedd yn gofyn am sylwadau gan unrhyw un â diddordeb mewn cyfiawnder i sicrhau bod llysoedd a thriwlynlysoedd yn parhau i fod yn gyson â gofynion cwsmeriaid, bod cymunedau'n parhau i fod â mynediad i adeiladau llysoedd pan fydd angen iddynt eu mynychu neu drwy ddulliau eraill, a bod modd gwrando achosion mewn adeiladau sydd â chyfleusterau addas.

### Newid yn yr ystadau yng nghyd-destun diwygio llysoedd a thriwlynlysoedd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'n gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, y llysoedd sifil a'r llysoedd teulu a'r thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr<sup>2</sup> a'r thriwlynlysoedd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n gweithredu mewn partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fanylion rhaglen i ddiwygio llysoedd a thriwlynlysoedd. Wrth galon y rhaglen hon mae defnyddio technoleg a'r egwyddor o fod yn gymesur. Defnyddir technoleg ddigidol i ddelio â materion trafodion syml (fel gweinyddu materion profiant neu bledio euog i fân drosedd a thalu dirwy) er mwyn sicrhau bod y prosesau'n syml.

Yn ein canolfannau gwrandawiadau sifil, teulu a thriwlynlys, byddwn yn symud i system lle mae modd datrys mwy o achosion yn gyflymach ac yn fwy effeithlon heb fod angen gwrandawriad ffurfiol. Bydd defnyddwyr yn gallu delio â thrafodion sylfaenol heb fod angen cyfreithiwr, a phrofi'r un safon wych o gyfiawnder Prydeinig â busnesau rhyngwladol.

Yn ogystal â gwneud y system yn fwy hygyrch, gall technoleg fodern leihau costau'r system cyfiawnder troseddol, er enghraifft, ni fydd angen cludo carcharorion i'r llys ar gyfer gwrandawiadau mechnïaeth, neu ni fydd angen i'r heddlu gymryd dyddiau llawn o'r gwaith i eistedd mewn ystafell llys.

Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd am farn am gynigion i leihau'r capasiti nad oes mo'i angen drwy gau llysoedd a thriwlynlysoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio o gwbl neu eu defnyddio digon, neu'r rhai sy'n anaddas ar gyfer y gwasanaethau y mae'n rhaid i ni eu darparu yn y dyfodol.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig cau:

- 57 llys ynadon

---

<sup>2</sup> Mae rhai thriwlynlysoedd sy'n rhan o Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru yng Nghymru.

- 19 llys sirol<sup>3</sup>
- Dau llys y goron
- Pedair canolfan gwrandawriad triwlynlys
- Naw llys cyfun

Er mwyn rhoi golwg gyffredinol i'r defnyddwyr o'r holl newidiadau arfaethedig i'r ystad, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth hefyd am lle rydym yn bwriadu adleoli llysoedd yn yr un dref neu ddinas a lle bydd yr effaith yn fach iawn ar y ddarpariaeth gwasanaeth. Ni wnaethom ymgynghori ar ein cynlluniau i integreiddio llysoedd. Mae'r cynlluniau integreiddio'n cynnwys 31 adeilad a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf ym mhob ymateb rhanbarthol.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 08 Hydref 2015. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ar lefel genedlaethol ac yn gosod ein hymateb iddynt.

---

<sup>3</sup> Wrth sôn yn y ddogfen hon am lysoedd ynadon, llysoedd sirol, llysoedd y goron a llysoedd cyfun, cyfeirir at yr adeiladau (strwythur unigol sy'n darparu ystafelloedd gwrandawriad ar gyfer achosion troseddol, sifil, teulu a thriwlynlys) sy'n cynnal y gweithgaredd hwnnw mewn lleoliad penodol. Yn fanwl gywir, mae deddfwriaeth yn darparu y bydd un llys y goron, llys sirol a llys teulu ar gael.

## Strategaeth Ystadau Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu busnes yn effeithiol ac yn diwallu ein gofynion strategol yn y dyfodol, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM wedi gosod set o egwyddorion a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig yn yr ymgynghoriad hwn.

Dyma'r egwyddorion:

### Sicrhau Mynediad at Gyfiawnder

- Sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder wrth asesu effaith rhaglen gau bosib ar ddefnyddwyr proffesiynol a lleyg y llysoedd a'r thriwlynlysoedd, gan ystyried amseroedd teithio i ddefnyddwyr, yr her o sicrhau mynediad mewn ardaloedd gwledig ac unrhyw gamau lliniaru, gan gynnwys cael cyfleusterau mewn canolfannau dinesig lleol ac adeiladau eraill i sicrhau mynediad lleol, systemau TGCh modern a system restru fwy hyblyg, pan fydd teithiau gryn dipyn yn hirach.
- Ystyried anghenion defnyddwyr ac yn benodol, dioddefwyr, tystion a'r bobl hynny sy'n fregus.
- Cefnogi gofynion asiantaethau eraill fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaethau Cymdeithasol, Yr Heddlu a Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS).

### Sicrhau Gwerth am Arian

- Lleihau cost rhedeg yr ystad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Sicrhau cymaint o dderbynion cyfalaf â phosibl o'r ystad nad oes mo'i hangen er mwyn eu hail-fuddsoddi yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM.

### Sicrhau effeithlonrwydd yn y tymor hwy

- Dibynnu llai ar adeiladau sydd â chyfleusterau gwael a chael gwared ag adeiladau'r ystad sy'n anodd ac yn ddud i'w gwella neu eu huwchraddio;
- Symud tuag at ystad sydd ag adeiladau mwy a hwyluso'r gwaith o restru busnes llysoedd a thriwlynlysoedd yn fwy effeithlon a hyblyg ond yn rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr hefyd ynghylch pa bryd y gwrandewir eu hachosion;
- Gwella'r gallu i ddefnyddio'r ystad yn hyblyg ar draws yr awdurdodaeth droseddol ac ar wahân ar draws yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a Thriwlynlysoedd;
- Symud tuag at ystad sy'n darparu canolfannau gwrandawiaid penodol, gan geisio cyfleoedd i ganoli swyddogaethau swyddfa gefn, lle mae modd iddynt gael eu gweithredu fwyaf effeithlon.
- Sicrhau bod yr ystad yn cael ei defnyddio'n fwy effeithlon drwy geisio gwella effeithlonrwydd y system gyfan, manteisio ar ddulliau cyfathrebu modern (Wi-Fi a

chyswllt fideo) a mabwysiadu prosesau busnes i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;

- Sicrhau bod yr ystad yn cael ei defnyddio'n fwy effeithlon lle bynnag y bo modd ni waeth beth yw'r ffiniau gweinyddol presennol

Y cynnig yw bod y baich gwaith o'r safleoedd nad oes mo'u hangen yn cael ei drosglwyddo i lysoedd a thriwlynlysoedd sy'n bodoli'n barod a, lle y bo'n briodol, bydd darpariaeth leol arall yn galluogi pobl i gael mynediad parhaus at gyfiawnder. Gallai'r ddarpariaeth arall gynnwys sefydlu cysylltiadau fideo er mwyn i ddioddefwyr a thystion roi tystiolaeth o bell a gallai hyn fod yn fwy cyfleus a mwy addas, yn enwedig i ddefnyddwyr mwy bregus. Gallai hefyd gynnwys trefnu gwrandawiaidau mewn adeiladau dinesig neu adeiladau eraill heb fod yn gysylltiedig â Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM, ar gyfer gwrandawiaidau addas. Roedd y dogfennau ymgynghori rhanbarthol yn nodi'r safleoedd y cynigir trosglwyddo'r gwaith iddynt os bydd y llys neu'r canolfan gwrandawiad triwlynlys yn cau.

Er mwyn sicrhau newid radical yn y system gyfiawnder, rhaid i'r buddsoddiad fod yn effeithiol a sicrhau gwerth iawn am arian. Rhaid canolbwyntio ar gael ystad gynaliadwy, sy'n cydbwysu anghenion defnyddwyr llysoedd yn briodol â'r gofyn am effeithlonrwydd gweithredol.

Fel blaenoriaeth, rydym felly yn mynd i'r afael â'r capasiti sydd ar gael ar hyn o bryd nad oes mo'i angen o fewn ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni ddefnyddio'r ystad sy'n weddill mewn modd mwy deallus a hyblyg, gan leihau ein costau cynnal, buddsoddi ar wella'r ystad sydd ei hangen arnom yn y dyfodol a chreu gofod llys sy'n amlbwrpas. Bydd hyn yn golygu bod gwahanol awdurdodaethau llysoedd a thriwlynlysoedd yn gallu rhannu lleoliadau. Caiff derbynion cyfalaf wrth werthu unrhyw adeiladau rhydd-ddaliad nad oes mo'u hangen eu hail-fuddsoddi yn y rhaglen ddiwygio.

### **Integreiddio**

Er mwyn rhoi golwg gyffredinol i'r defnyddwyr o'r holl newidiadau arfaethedig i'r ystad, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth hefyd am lle mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn bwriadu integreiddio llysoedd yn yr un dref neu ddinas. Byddwn yn rhoi gwybod i randdeiliaid lleol am y newidiadau hyn pan fyddant yn digwydd.

Wrth integreiddio gall Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM symud gwaith i gyfuno awdurdodaethau mewn llai o leoliadau mewn ardal leol. Mae hyn yn golygu bod modd cau adeilad neu adeiladau ond cadw awdurdodaeth leol, sy'n golygu effaith fach iawn ar y ddarpariaeth gwasanaeth. Bydd staff arweiniol gweithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn rheoli'r broses integreiddio fel rhan o'r gwaith arferol o redeg y busnes.

Rydym wedi gwneud cynnydd gyda'r integreiddio ac mae rhagor o fanylion yn y dogfennau ymgynghori rhanbarthol.

## Asesiad o Effaith

Rydym wedi diweddarau'r Asesiad o Effaith a oedd gyda'r ymgynghoriad er mwyn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae fersiwn ddiweddaedig o'r Asesiad o Effaith yn cael ei chyhoeddi gyda'r ddogfen hon.

Dyma'r prif newidiadau i'r Asesiad o Effaith:

- newid model costau a buddion i adlewyrchu'r llysoedd a fydd yn cau a'r llysoedd a fydd yn cael eu cadw
- diweddarau'r dadansoddiad ar gyfer y data ariannol diweddaraf sydd ar gael
- diweddarau effeithiau amser teithio a chynnwys amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog mewn amser taith gyda char a gyda thrafnidiaeth gyhoeddus
- dangos effeithiau cost teithio, a
- symud Datganiad Effaith ar Gydraddoldeb o'r Asesiad o Effaith i Atodiad B y ddogfen hon.

Mae Asesiad o Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal ac mae wedi'i gynnwys yn yr Asesiad o Effaith. Mewn perthynas â chapasiti Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, daw i'r casgliad na fydd crynhoi gwasanaethau mewn llai o safleoedd yn rhwystro'r ddarpariaeth o wasanaethau i siaradwyr Cymraeg, ac y gallai hyn, mewn gwirionedd, wella'r ddarpariaeth.

Mae fersiwn Gymraeg o'r papur hwn a'r ddogfen ymgynghori rhanbarthol ar gyfer Cymru ar gael yn [www.justice.gov.uk](http://www.justice.gov.uk).

## Datganiad Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae Datganiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i baratoi ac wedi'i atodi yn Atodiad B. Mae hwn yn cynnwys asesiad llawn o'r effeithiau ar nodweddion gwarchodedig.

Yn dilyn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym o'r farn nad yw'r polisi yn gwahaniaethu o fewn yr ystyr a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gan ei fod yr un mor berthnasol i bawb yr effeithir arnynt gan y newidiadau yn y ddogfen hon. Nid ydym o'r farn y byddai'r cynnig polisi yn arwain at bobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd y nodweddion gwarchodedig.

## Ymatebion cenedlaethol

### **Crynodeb o'r Ymatebion i'r cynnig cenedlaethol ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thriwlysoedd yng Nghymru a Lloegr.**

Cafwyd dros 2,100 o ymatebion unigol i'r ymgynghoriad. Ar ben hynny, cyflwynwyd 13 deiseb a oedd yn cynnwys oddeutu 10,000 o lofnodion. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlysoedd EM yn ddiolchgar am yr holl gyfraniadau wrth ymateb i'r ymgynghoriad.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gysylltiedig â llysoedd unigol. At ei gilydd, cafwyd 110 o ymatebion a oedd yn ymwneud yn benodol â'r papur ymgynghori cenedlaethol. O'r rhain:

- daeth 35 ymateb i law gan ddefnyddwyr proffesiynol
- daeth 20 ymateb i law gan farnwyr ac ynadon
- daeth 12 ymateb i law gan gyrff y sector cyhoeddus
- daeth saith i law gan bartneriaid y System Cyfiawnder Troseddol, a
- daeth 36 ymateb arall i law gan unigolion, sefydliadau a phwyllgorau.

O blith yr ymatebion i gyd, roedd 15 yn cefnogi'r cynigion i gau ar lefel genedlaethol ac roedd gan 39 farn niwtral. Dyma oedd y prif themâu:

- nid yw'r ystad yn cael ei defnyddio digon a dylid cynyddu faint mae'n cael ei defnyddio
- yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae'n bwysig bod arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud lle y bo'n bosibl, a
- dylem edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu ein gwasanaethau lle y bo'n bosib.

"The CJC is broadly supportive of the proposals contained in this paper as clearly falling within the parameters of the HMCTS reform programme and its aims. A subsidiary aim of this part of that work must continue to be the provision of justice, and in particular access to local justice." Andrea Dowsett, Y Cyngor Cyfiawnder Sifil

"CAFCASS recognises the positive work being done as part of the Closer working group to ensure practitioners can work effectively in court. We see potential in developing online Courts" Anthony Douglas, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS).

"This Consultation Paper presents a valuable and timely opportunity for a considered debate about the configuration of the court estate in England and Wales. JUSTICE strongly encourages HMCTS to approach the consultation process and the subsequent reform in a manner which places the court user at its

centre. We look forward to sharing our Working Party's deliberations with HMCTS in the near future." Nadia O'Mara, JUSTICE.

"The Bar Council urges HMCTS to make further investigation into the alternative arrangements proposed by the consultation. In particular, HMCTS should make certain that the remaining courts will be able to take on the further workload and that the alternative venues proposed will meet the appropriate requirements."  
Cyngor y Bar

Roedd 56 o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r cynigion i gau. Dyma oedd y prif themâu:

- mynediad at gyfiawnder (cost trafndiaeth i leoliadau eraill ac a fyddai'r drafndiaeth honno ar gael), a
- phryderon ynghylch cywirdeb y data yn y ddogfen ymgynghori a'r Asesiad o Effaith.

"There will inevitably be delays and cancellations to hearings caused by the increased journey times and cost for litigants. We can envisage the scenario where in housing cases people on benefits will be unable to attend court to argue against eviction and will have no other way of making an appearance, as they may not have access to the Internet (which is not free, requiring hardware and Wi-Fi or broadband connection). We are concerned about vulnerable people who use the Courts. It would be useful to have statistics regarding the socio-economic backgrounds of Court users and the affordability and cost of car and public transport usage. Although putative journey times are given, what is the increased mileage on average for litigants?" Peter Causton, Cymdeithas Barnwyr Rhan-amser y DU

"There are clearly some courts which are radically under-utilised and for which closure is appropriate. However these proposals go too far and the impact on access to justice is understated" Ynad, enw heb ei roi.

"Some cases can be dealt with remotely or online and there should be the option for every case to be considered in this way. But the majority of cases considered by a District Judge in a County Court involve debt, urgent injunctions, housing, divorce or arrangements for children – life-changing events for individuals who are entitled to a fair trial before a judge if they wish it. The parties' Article 6 rights are engaged." Y Barnwr Rhanbarth Ellis.

Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn gwrthwynebu'r cynigion, gan fynegi pryderon difrifol ynghylch effaith y cynigion ar fynediad at gyfiawnder a theithio o ran amser a chost. Roeddent yn galw am fwy o dryloywder am y dulliau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r amseroedd teithio yn yr ymgynghoriad gan ofyn bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn cael ei hasesu'n annibynnol.

"The Society agrees that the use of technology could benefit court users but substantial financial investment is needed to upgrade the current technology. The society recommends that it will be prudent to modernise the court with new technology, assess how it is working then consider savings rather than the other way round." Lori Frecker, Cymdeithas y Cyfreithwyr.

Yn ymateb Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd cafwyd sylwadau ar sail llysoedd unigol. Mae'r sylwadau hyn yn y dogfennau ymateb rhanbarthol ynghyd â'r ymateb iddynt.



Mynegodd Barnwyr Cylchdaith Cyngor Ei Mawrhydi bryderon am ardal y ddarpariaeth, gan nodi adroddiad yr Arglwydd Ustus May "*Justice Outside London*" a'r egwyddor y dylai'r cyhoedd allu gweld cyfiawnder yn cael ei wneud yn eu hardal leol. Maent yn bryderus hefyd ynghylch gallu'r llysoedd i ymdrin â baich gwaith ychwanegol heb fuddsoddiad sylweddol i wella cyfleusterau ac adnoddau.

Tynnodd Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil sylw at ddiffyg cynllun gweithredu a hefyd "... initial and subsequent upheaval that will come with these proposals and especially at a time when court fees are increasing and the service is neither efficient nor commensurate with the service envisaged after the 2010 consultation." Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil

Roedd Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai ac eraill yn pryderu ynghylch effaith y cynigion ar y rheini sy'n sâl a heb lawer o fodd ac sydd eisoes, yn eu barn hwy, yn ei chael yn anodd dod i'r llysoedd presennol. Byddai'r cynigion yn achosi caledi mawr iddynt.

Mae Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol yn gwrthwynebu'r cynigion ac yn galw ar y Llywodraeth i ystyried ffyrdd eraill o,

"... reduce costs whilst sustaining affordable justice. Parishes will be affected badly if the proposal to close 9 combined courts is implemented." Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol.

Dywedodd Llywodraeth Cymru,

"The UK Government is acting prematurely in focusing on closing courts and tribunals before any assessment or analysis has been undertaken into developing digital platforms and Lord Justice Briggs has made recommendations about the future structure of the Civil Courts. It is impossible to assess the impact and engage properly in this consultation process in the absence of clear and strategically informed proposals." Siân Mills, Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Historic England ei bod yn well i adeiladau llysoedd rhestredig barhau i gael eu defnyddio fel y'u bwriadwyd gan fod tu mewn i'r adeiladau a'r gosodiadau o ddiddordeb hanesyddol. Pwysleisiwyd y dylai'r broses gwaredu gydymffurfio â'r canllawiau yn 'Disposal of Heritage Assets, a guidance note for Government departments and non-departmental public bodies'.

Mae ein hymateb i'r rhain a sylwadau eraill wedi'u nodi yn adran nesaf yr adroddiad hwn, wedi'u crynhoi o dan y prif themâu:

- Mynediad at Gyfiawnder
- Gwerth am arian
- Effeithlonrwydd gweithredol
- Darparu gwasanaethau mewn modd arall

Mae rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

## Ymatebion i themâu penodol

### Mynediad at Gyfiawnder

Mewn oddeutu dwy ran o dair o'r ymatebion i'r ddogfen genedlaethol, cyfeiriwyd at faterion yn ymwneud â mynediad at gyfiawnder. Yn benodol, mynegwyd pryderon ynghylch cost trafnidiaeth gyhoeddus ac a yw'r drafnidiaeth honno ar gael ynghyd â mynediad hwylus ar gyfer grwpiau penodol o bobl. Bu llawer yn herio amcangyfrif yr amseroedd teithio, ac yn credu eu bod yn rhy optimistaidd.

"The MA is concerned the some of the proposed court closures will severely restrict defendants, victims and witnesses from accessing justice.... The MA believes that 20% of the working-age population being more than 30 minutes away from a magistrates' court, even by car, is concerning. And that when taking public transport into consideration, the proposed drop from 82% to 73% of people who are within 60 minutes of a magistrates' court presents severe challenges for access to justice." Cymdeithas yr Ynadon

Mynegodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid bryderon hefyd ynghylch yr amseroedd teithio a'r perygl y gellid gweld mwy o bobl yn peidio ag ymddangos yn y llys.

"For those young people receiving custodial sentences at court, we anticipate that these proposals risk compromising the current information exchange process between YOTs [Youth Offending Teams] and the secure estate." Y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid

Bu Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth, ac eraill, yn herio'r amseroedd teithio a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

"The general consensus was that travel times were not reflective of travel during peak times as would be required for cases with 9.30am starts and in many cases local staff suggested that the actual travel times would be at least double those stated. Furthermore there appears to be little, if any, consideration given to seasonal fluctuations in traffic due to holidays, adverse weather and scheduled road works." Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth.

"Overall there are inherent concerns as to access to justice. The experience of our members is that many people attending court do not do so by car. Due regard must be had to the accessibility of public transport and in particular, direct routes. There will be direct effect on the advocate at Court having no client to represent, or having to wait for the arrival of the client via public transport. The effect on witnesses of court closures in rural areas cannot be overstated." Sue Johnson, Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Droseddol

Roedd rhai ymatebwyr yn gefnogol, ar y cyfan, i'r cynigion ac yn credu nad oeddent yn amharu ar fynediad at gyfiawnder ond roeddent yn awyddus i bwysleisio y dylid mynd ati hefyd i sicrhau gwelliannau ehangach i'r gwasanaeth a ddarperir gan y llysoedd.

"It makes no sense having empty courts and wasting tax payers money, so I agree with the proposals. As a Magistrate, I will have to travel further to get to court.

Overall, I agree with the proposals but please don't just shut down courts but take the opportunity to simultaneously improve the process of delivering justice.”  
Sudesh Mattu, Rheolwr Busnes.

“Members of the public are prepared to travel to court as it is typically a once in a life time or a very rare event. It can be compared to visiting a specialist hospital. There is scope for greater compacting of the estate. Lawyer are flexible by nature so are used to travelling to different courts. A court's proximity to rail stations is key for lawyers.” Nathan Sharman, Locwm BCC.

## Ymateb

Mae mwy i fynediad at gyfiawnder na dim ond bod yn agos at lys. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ffyrdd eraill yn lle teithio. Bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i'n gwasanaeth yn golygu y bydd angen i lai o bobl fynd i'r llys. Mae mynd i'r llys yn gallu achosi straen mawr, yn enwedig i bobl fregus.

Rydym yn sylweddoli y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn arwain at gynnydd yn yr amser teithio i'r rheini sy'n gorfod mynd i'r llys ac sy'n byw yn agos at lys neu driwilysoedd a fydd yn cau'n awr. Cafodd hyn ei gydnabod yn yr ymgynghoriad cyntaf a rhoddwyd amcangyfrifon o'r cynnydd yn yr amseroedd teithio gyda char a thrafnidiaeth gyhoeddus ac enghreifftiau penodol o'r amseroedd teithio a'r costau. Mae'r rhain wedi cael eu diweddarau lle y bo angen hynny ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae'r Asesiad o Effaith wedi'i ddiweddarau.

Rydym wedi cynnal asesiad o effaith y cynigion hyn ar gydraddoldeb, gan gynnwys ar bobl ifanc a'r henoed. Rydym o'r farn nad ydynt yn gwahaniaethu. Mae nifer o ffyrdd o liniaru effaith y newidiadau hyn ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad B isod.

Rhoddwyd y wybodaeth am deithio a chostau trafndiaeth gyhoeddus er mwyn rhoi syniad o'r effeithiau tebygol ond nid oedd modd modelu taith pob cwsmer posibl. Edrychir ar fynediad at gyfiawnder yn lleol ar gyfer pob llys neu driwilysoedd yn y dogfennau ymateb rhanbarthol.

Anaml iawn y bydd aelodau'r cyhoedd yn mynd i wrandawriad llys. I lawer, ni fyddant byth yn gorfod mynd. Ond, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn cydnabod na ddylai defnyddwyr orfod gwneud teithiau sy'n rhy hir neu'n rhy anodd er mwyn cyrraedd gwrandawriadau. Ni fydd y cynnydd yn yr amseroedd teithio sy'n deillio o'r newidiadau i'r ystad yn atal defnyddwyr rhag dod i'r llysoedd. Rydym yn gwybod hefyd, mewn oes sydd fwyfwy ddigidol, nad oes angen i ddefnyddwyr ddod i'r gwrandawriadau yn bersonol bob tro er mwyn iddynt gael mynediad at y system cyfiawnder.

Ar sail genedlaethol ac i boblogaeth Cymru a Lloegr yn gyffredinol, bach yw'r newidiadau i'r amseroedd teithio a amcangyfrifir.

Mynediad gyda char	Cyn newidiadau		Ar ôl newidiadau	
	0-60mun	0-120mun	0-60mun	0-120mun
Llysoedd y Goron	97%	100%	97%	100%
Llysoedd Ynadon	99%	100%	98%	99%

Llysoedd Sirol	99%	100%	98%	99%
Tribiwnlysoedd	83%	98%	83%	97%

<b>Mynediad gyda thrafnidiaeth gyhoeddus</b>	Cyn newidiadau		Ar ôl newidiadau	
	0-60mun	0-120mun	0-60mun	0-120mun
Llysoedd y Goron	62%	94%	61%	93%
Llysoedd Ynadon	82%	97%	74%	95%
Llysoedd Sirol	78%	100%	72%	99%
Tribiwnlysoedd	39%	79%	39%	79%

Y newid mwyaf yw gostyngiad o 8% yng nghyfran y boblogaeth sy'n gallu teithio i'w llys ynadon agosaf o fewn awr gyda thrafnidiaeth gyhoeddus.

Disgwyliwn i'r broses lle mae pobl leol yn mynd gerbron ynadon lleol barhau. Er bydd cau llysoedd ynadon yn arwain at rai newidiadau angenrheidiol i Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (yn amodol ar ymarferion unigol i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliad), bydd ynadon yn dal i fod aelodau gwerthfawr o'r farnwriaeth a byddant yn gallu parhau i wasanaethu eu cymunedau yn lle bynnag y byddant yn sicrhau cyfiawnder.

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar lefel genedlaethol, rydym o'r farn bod egwyddorion yr ystadau yng nghyswllt mynediad at gyfiawnder wedi cael eu defnyddio'n briodol yn y penderfyniadau a wnaethpwyd, a'u bod yn dal yn gyson â'n hamcanion cyffredinol ar gyfer ein hystadau. Mae'n dal yn wir mai prin iawn y bydd angen i'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd fynd i'r llys.

I rai llysoedd, roedd effaith y rhaglen cau llysoedd ar fynediad at gyfiawnder yn fwy. Yn yr achosion hyn, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu naill ai i gadw'r llys neu gau'r llys a chwilio am ddarpariaeth arall leol sy'n addas. Mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adran Penderfyniadau isod ac yn y ddogfen ymateb rhanbarthol briodol.

Ar ben hynny, yn unol â'r arfer cyfredol, bydd defnyddwyr llysoedd a thriwilysoedd sy'n wynebu anawsterau eithriadol i ddod i'r llys erbyn amser penodol yn gallu gwneud cais fel bod modd gwrando eu hachos ar amser gwahanol ar sail unigol.

## Gwerth am Arian

Mewn ambell ymateb, mynegwyd pryder ynghylch gwerth am arian ac a fyddai'r rhaglen cau yn arwain at y lefel o arbedion ariannol a nodwyd.

Dywedodd Cymdeithas Barnwyr Rhan-amser y DU y byddai'r adnoddau a wariwyd yn ddiweddar wrth adnewyddu adeiladau yn cael eu gwastraffu o ganlyniad i gau'r adeiladau.

"Take Stockport County Court for example, a building that has recently been renovated at a cost of approx £1M which would now be thrown away if it was closed." Peter Causton, Cymdeithas Barnwyr Rhan-amser y DU

"The projected savings should be considered with reference to previous rounds of court closures. It should not be forgotten that many of the buildings remain unsold. The proposals appear to minimise the immediate increase in costs that will result from court closures including lease break costs, IT decommissioning etc Also the options set out in the assessment are extremely limited ie do nothing or close court buildings" Richard Michael Mason, Cyfreithiwr.

Roedd un o'r ymatebwyr yn dadlau bod yn rhaid manteisio ar dechnoleg newydd yn gyflymach, gan ddweud bod cost tir yn uchel. Ond rhybuddiodd hefyd y byddai angen i ddiffynyddion, tystion a'r rheithgor allu cyrraedd y lleoliadau yn rhwydd. Yr awgrym oedd:

"admin procedures could be centralised in one national location. With the advent of everything being digital, staff do not need to be working from this valuable estate. This could lead to more courts being squeezed into one building/ E.G Mags / Crown / family / coroners." Claire Hewson, Plismones.

Dyma oedd ymateb Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol:

"The proposals are too driven by the need to cut costs rather than any desire to improve access to justice. We believe that the closures will restrict access to courts and tribunals for many court users. The difficulty in reaching alternative courts is likely to increase the risk of delays and may lead to more miscarriages of justice due to the longer journey times acting as a deterrent to victims and witnesses" Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol.

## Ymateb

Rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud yn siŵr bod ei ystad yn cael ei defnyddio i sicrhau cyfiawnder yn effeithlon ac yn effeithiol mewn modd sy'n rhoi gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Pe byddai ein hystad yn parhau fel y mae ar hyn o bryd, byddai traean o'n cyllideb weithredol yn cael ei gwario ar yr ystad llysoedd a thribiwnlysoedd, ac ychydig iawn o ddefnydd fyddai ar yr ystad honno. Mae 460 o adeiladau yng Nghymru a Lloegr, ac mae hyn yn costio £500 miliwn y flwyddyn. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15, cafodd bron hanner ein hadeiladau eu defnyddio lai na hanner yr amser gwrandawriad oedd ar gael.

Mae'r ystad hon nad oes mo'i hangen yn cyfyngu ar ein gallu i fuddsoddi mewn ffyrdd eraill o sicrhau cyfiawnder i bawb. Rydym yn awyddus i leihau cost rhedeg yr ystad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a sicrhau cymaint o dderbynion cyfalaf â phosibl wrth werthu'r ystad nad oes mo'i hangen er mwyn ail-fuddsoddi yng Ngwasanaeth Llysoedd a

Thriwlynlysoedd EM. Mae hyn yn hanfodol i gyflawni ein cynlluniau i ddiwygio'r gwasanaeth.

Rhaid i ni ddibynnu llai ar adeiladau sydd â chyfleusterau gwael a chael gwared ag adeiladau'r ystad sy'n anodd ac yn ddrud i'w gwella neu eu cynnal.

Mae'r Asesiad o'r Effaith a atodir yn cynnwys amcangyfrifon manwl o gostau a buddion y newidiadau hyn. Yn gryno, disgwylir arbedion cost rhedeg blynyddol o £27 miliwn ynghyd â derbynion cyfalaf o £39 miliwn wrth werthu adeiladau rhydd-ddaliad. Bydd y ffigurau hyn yn newid wrth i ni newid ein cynlluniau, a'r penderfyniadau wedi'u gwneud bellach.

Rydym yn disgwyl gwaredu ystad rydd-ddaliad nad oes mo'i hangen yn unol â'r canllawiau cyfredol traws-lywodraethol, gan sicrhau cymaint o werth i'r trethdalwr ag y bo modd. Ers y rhaglen cau gynharach, mae nifer fach o eiddo â materion penodol i'w datrys heb werthu o hyd, ond er hynny, llwyddodd Rhaglen Diwygio Ystad y Llysoedd (CERP), a gyhoeddwyd yn 2010, i godi £49.6 miliwn wrth werthu eiddo rhydd-ddaliad.

### **Effeithlonrwydd Gweithredol**

Roedd llawer o'r ymatebion yn cyfeirio at effeithlonrwydd gweithredol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cwestiynu'r capasiti i dderbyn busnes ychwanegol mewn adeiladau eraill.

Mae Cyngor y Bar am gael sicrwydd y bydd y trawsnewid yn arwain at gyfleusterau o safon uchel, yn enwedig gan fod y cynnydd yn yr achosion yr ymdrinnir â hwy yn y lleoliadau a gedwir yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau.

“... it is worth highlighting three notable limits to improving efficiency in the criminal justice system (CJS): the fact that the CJS have no control over the number of cases that must be handled; the chronic shortage of funds in the CJS; and the cooperation of defendants in court proceedings.” Cyngor y Bar.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn holi ynghylch defnyddio'r llysoedd a sut y byddai achosion yn cael eu rhestru.

“There may be some County Courts which are under-utilised, but there are also many others which are struggling to cope with the workload. For example, in a case I was recently involved in at the County Court in Brentford, there were 4 x hearings listed for one Judge at 10:00am, and another 3 at 11:30. Each of those had a time estimate of 1.5 or 2 hours.” David Carrod, defnyddiwr proffesiynol.

“There is insufficient evidence to show that efficiencies will be made by court listings. Many integrated courts are already stretched, for example Central London court has recently had a 62 day backlog of correspondence and in Manchester Court office space does not appear to have room for expansion.” Shelter.

Mynegodd Cymorth i Ddiodefwyr bryderon am yr effaith ar amseroedd aros.

“In addition to ensuring a high quality of facilities available to all witnesses, HMCTS will need to ensure that added pressure on remaining courts as a result of closures does not generate backlogs and lead to longer waiting times which can

have serious and far reaching implications for victims and witnesses.” Alexandra Barker, Cymorth i Ddiodefwr.

Dywedodd sawl rhanddeiliad, gan gynnwys y Gwasanaeth Ansoffedd a Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r hoffent gydweithio, yn enwedig gyda chynlluniau gweithredu.

“The Insolvency Service would ask to work in partnership on a solution which is compatible and useful for both of us to achieve greater use of technology for conducting routine hearings as an alternative to physically attending court premises as well as increased use of paper applications where routine and non-contentious matters are dealt with without hearings” Y Gwasanaeth Ansoffedd.

“HMCTS and NOMS are close partners within the criminal justice system and the relationship between the two is at the heart of the criminal justice process. We welcome the opportunity to participate in this consultation and the direction of travel proposed. Engagement has already begun on an operational level and we remain optimistic that this will lead to successful delivery of our own estate reforms and deliver savings to the public purse and maintain protection of the public.”  
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r

## Ymateb

Ar gyfer pob llys, aseswyd capasiti'r llys a fyddai'n derbyn y baich gwaith ychwanegol cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau yn dilyn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Mae lefelau defnydd llysoedd unigol wedi'u cynnwys yn y dogfennau ymateb rhanbarthol i'r ymgynghoriad. Mae lefel y baich gwaith yn y llysoedd hyn wedi cael ei hadolygu i wneud yn siŵr bod digon o gapasiti yn y llysoedd a fydd yn derbyn y baich, gan gynnwys ystyriaeth ar gyfer newidiadau rhesymol yn y baich gwaith yn y dyfodol.

Mae cyfradd defnydd ystafelloedd gwrandawiadau ar draws Cymru a Lloegr yn isel iawn ar hyn o bryd. Ar lefel genedlaethol ym mlwyddyn ariannol 2014-15 dyma'r lefelau defnydd a gofnodwyd fesul awdurdodaeth:

- Llysoedd y Goron 71%
- Llysoedd sirol 53%
- Llysoedd ynadon 47%
- Ystafell gwrandawiadau Tribiwnlys 71% [data 2013/14]<sup>4</sup>

Mae lefel defnydd mewn llysoedd yn dal i fod yn annerbyniol o isel. Yn 2014-15 cafodd oddeutu hanner (48%) y llysoedd a'r tribiwnlysoedd eu defnyddio lai na hanner yr amser. Er bod rhai cynlluniau wedi lleihau'r baich gwaith i'n llysoedd, mae gormod o ystafelloedd llys yn ein hystad, ar y cyfan, ac mae llawer o'r rhain mewn cyflwr gwael neu nid oes modd eu defnyddio'n hyblyg.

---

<sup>4</sup> Y data diweddaraf sydd ar gael ar ddefnydd mewn tribiwnlysoedd

Fel rhan o asesu ymatebion i'r ymgynghoriad, adolygwyd cyfraddau defnyddio pob llys a thriwlynlys a oedd yn y cynigion. Os yw'r cyfraddau defnydd wedi cael eu diwygio o ganlyniad, mae hyn wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori rhanbarthol ynghyd ag esboniad am y newid. Ar gyfer pob llys, aethpwyd ati eto i asesu capasiti'r llys a fyddai'n derbyn y baich gwaith ychwanegol.

Yn dilyn yr asesiad hwn, rydym yn ffyddiog bod digon o gapasiti i redeg y busnes yn effeithiol a bodloni ein gofynion strategol yn y dyfodol. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn adolygu tueddiadau mewn baich gwaith yn rheolaidd ar draws pob awdurdodaeth, ac mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn seiliedig ar y baich gwaith presennol a'r baich gwaith a ragwelir. Er mwyn delio ag unrhyw newidiadau eithriadol i'r baich gwaith, byddem yn defnyddio capasiti'r llys mewn modd hyblyg ar yr adeg honno.

Wrth i ni fynd ati fwyfwy i fabwysiadu ffyrdd digidol o weithio, a lleihau'r gofyn i ddefnyddwyr ddod yn bersonol i wrandawiadau, bydd yr angen am ystafelloedd llys yn lleihau eto. Mae cyfuno'r baich gwaith mewn un lleoliad yn sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac yn sicrhau arbedion. Gall adeiladau mawr hwyluso'r gwaith o restru achosion yn fwy effeithlon a hyblyg a rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr ynghylch pryd y gwrandewir eu hachosion. Byddwn yn gallu buddsoddi'n fwy cymesur i wella'r cyfleusterau mewn llai o safleoedd.

Byddwn yn gweithio gyda phob un o'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i ddatblygu cynlluniau gweithredu. Rydym yn awyddus i sicrhau effeithlonrwydd gweithredol ac edrych ar atebion i'w defnyddio ar y cyd ar lefel leol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Ansofedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Yr Heddlu, CAF/CASS, Gwasanaeth Troseddau leuenctid a Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr gan gynnwys carchardai a'r gwasanaeth prawf. Mae cysylltiad agos rhwng eu gwaith hwy a'n gwaith ni.

### **Darparu Gwasanaethau mewn Modd Arall**

Mae nifer o ymatebion yn rhoi sylw i ddarparu gwasanaethau llys mewn modd arall. Roedd llawer yn cefnogi'r syniad o ddefnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol, ond mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch y farnwriaeth a staff mewn adeiladau eraill, a fyddai cysylltiad rhyngwyd addas ar gael, a gallu pobl i gael gafael ar wasanaethau ar-lein a'u defnyddio.

"The MA agrees that alternatives to travelling to a physical building could be beneficial for some users in relation to certain types of hearing. Examples would be digitised systems for certain offences such as speeding, or use of video linking for vulnerable witnesses." Cymdeithas yr Ynadon

"JUSTICE strongly supports the expanded use of technology in the justice system. We agree that a significant number of legal matters, particularly in civil and family law, could be dealt with more efficiently and more fairly through the use of technology... the development of an integrated online and telephone service which would provide effective access to information, advice and assistance for the majority of those who would not otherwise have access to such services, while also freeing up scarce personally delivered services to those who need them most." Nadia O'Mara, JUSTICE.

Roedd Barnwyr Cylchdaith yn pryderu am ddiogelwch hefyd.



"...Courts and tribunals are flashpoints for high emotions. It is simply not good enough to assume that any public building will be secure enough to be used as a court or tribunal or to gain access to a court or tribunal." Barnwyr Cylchdaith.

"The suggestion of using other civic or public buildings for hearings as demand requires inevitably raises questions as to the appropriateness of these buildings for use as a courtroom. It is likely that all the functions a courtroom can provide will not always be easily substituted by another civic or public building. For example, the consultation does not discuss whether or how any technical facilities that may be necessary for the display or sharing of documents and evidence will be provided, nor does it engage with how special measures for vulnerable witnesses or necessary support staff for court users will be made available." Cyngor y Bar.

Gofynnodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i achosion pobl ifanc gael eu hasesu ar sail pob achos unigol. Dyma eu dadl hwy:

"We are clear that a digital by default position is not suitable for young people ... HMCTS's proposals also highlight the possibility that, in cases where security requirements are low, alternative provision could be made through the use of other public buildings. The YJB feels that these proposals could have clear benefits for young people." Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd yr ymatebion gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Shelter yn cynnwys pryderon na fyddai cysylltiadau fideo, i rai grwpiau, yn ddewis addas yn lle dod i'r gwrandawriadau eu hunain, ac y byddai eu gallu i gymryd rhan mewn achos, o bosib, yn tansellio egwyddor cydraddoldeb i bawb. Yr enghreifftiau a roddwyd oedd pobl â nam ar y clyw neu'r golwg, pobl hŷn neu bobl ag anghenion cymorth i gyfathrebu.

"Although further use of technology may mitigate against some of the negative impacts of court and tribunal closures, for some groups video-links may not be a suitable alternative to attending the hearing in person. This may include people with visual or hearing impairments, including some older people, and those with communication support needs. In the Commission's analysis, there may be circumstances where not being physically present in court may restrict meaningful participation in the proceedings and so undermine the principle of equality of arms." Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

"Whilst the increase in the use of technology to enable greater remote engagement is welcomed, in our view it is currently only suitable for interim hearings, where a party is represented, because in our experience, people can struggle with access to technology, and usually lack the confidence to present a case remotely." Shelter.

"There is no account taken of the fact that older people and poorer households are more likely not to have internet access in the home, or, with regard to older people, may not be familiar with using the internet. Someone who has never before used, or has little experience with the internet may find the prospect of online dispute resolution just as daunting as having to attend court itself. The Government must be aware that more rural areas of England and Wales have significant issues with broadband coverage." Alice Warren, Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol

“Witnesses giving evidence by remote link is already used but not as often as it could be. Court digitalisation will help and local courts could be better utilised for these purposes” David Longmore, Ynad.

Mynegodd Cymdeithas y Cyfreithwyr bryderon hefyd ynghylch diogelwch adeiladau cyhoeddus gan argymhell bod ymgynghoriad ar wahân, ar ddefnyddio adeiladau o'r fath, yn cael ei gynnal cyn gwneud penderfyniadau ar ddarparu gwasanaeth mewn modd arall.

## **Ymateb**

Yn ogystal â mynd i'r afael ag ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, rydym yn awyddus i foderneiddio ein harferion a mabwysiadu ffyrdd symlach o weithio, gan ddefnyddio ein hystad yn fwy deallus a hyblyg i leihau'r costau rhedeg a chynyddu gofod llys sy'n amlbwrpas. Bydd hyn yn golygu bod awdurdodaethau llysoedd a thribiwnlysoedd gwahanol yn gallu rhannu lleoliadau.

Mae mynd i'r llys yn broses sy'n aml yn aneffeithlon ac yn cymryd llawer o amser i bawb dan sylw. Byddai ffordd fwy cymesur o fynd i'r llys yn cael gwared ar y gwastraffu amser ac yn gwella hyder pobl yn y broses o weinyddu cyfiawnder. Mae'n ddyletswydd arnom i gynnig ffyrdd mwy cyfleus a llai brawychus i ddinasyddion ryngweithio â'r system cyfiawnder ond gan gynnal yr awdurdod ar gyfer achosion priodol.

Ni fydd angen i ddefnyddwyr fynd i wrandawiadau yn bersonol bob tro er mwyn cael mynediad at system gyfiawnder. Er ein bod eisoes wedi sefydlu ffyrdd gwahanol i ddefnyddwyr allu rhyngweithio gyda'n gwasanaethau, rydym yn awyddus i ehangu'r darpariaethau hyn i gynnig mwy o ddewis na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Er enghraifft, drwy ddefnyddio technoleg yn well, gan gynnwys fideo-gynadledda, defnyddio mwy ar wrandawiadau dros y ffôn ac edrych a allwn ddefnyddio adeiladau dinesig yn briodol ar gyfer mathau penodol o wrandawiadau.

Mae rhaglen genedlaethol ar waith ar hyn o bryd i adnewyddu offer cyswllt fideo'r adran a'r seilwaith cysylltiedig. Bydd hyn yn arwain at system fwy dibynadwy ar gyfer defnyddwyr llysoedd. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn edrych ar ddefnyddio technoleg fodern i wneud y system gyfiawnder yn fwy hygyrch yn ogystal â lleihau costau'r system gyfiawnder gyfan, er enghraifft, ni fydd angen cludo carcharorion ar gyfer gwrandawiadau mechnïaeth, neu ni fydd angen i'r heddlu gymryd dyddiau llawn o'r gwaith i eistedd mewn ystafell llys.

Mae trafodaethau cychwynnol yn cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid i weld a oes ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, mae trafodaethau cynnar yn cael eu cynnal yn rhanbarthol gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid lleol eraill i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio llefydd cyhoeddus. Gallai'r rhain gynnwys adeiladau dinesig, prifysgolion a chanolfannau cymunedol. Mae'r ymateb ar gyfer pob llys yn cynnwys yr hyn a ddisgwyliwn ynghylch darparu mynediad lleol arall at wasanaethau llys.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu cynlluniau peilot a fydd yn profi gwrando achosion mewn adeiladau nad ydynt yn llysoedd. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod diogelwch y farnwriaeth, staff a defnyddwyr yn cael ei asesu'n rhan o'r broses hon, ac y bydd y ddarpariaeth o gyfleusterau TGCh priodol hefyd yn cael ei hystyried a'i gwerthuso'n ofalus.

## **Penderfyniadau**

Ar ôl ystyried yn ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cadw'r llysoedd canlynol:

### **Gogledd-orllewin Lloegr**

Llys Sirol St Helens (Llys Ynadon St Helens i gau)

Llys Ynadon a Llys Sirol Stockport

Llys Ynadon a Llys Sirol Gorllewin Cumbria

### **De-orllewin Lloegr**

Llys Ynadon, Llys Sirol a Llys Teulu Caerfaddon

### **Cymru**

Canolfan Gwrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant

Bydd y llysoedd canlynol yn cau, gyda newidiadau i'r cynigion gwreiddiol yn yr ymgynghoriad. Bydd gwaith naill ai'n symud i safleoedd eraill Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM, neu mae penderfyniad wedi'i wneud i sefydlu darpariaeth leol arall addas cyn i'r llys gau (bydd seren wrth enw'r llysoedd hyn). Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys natur y ddarpariaeth arall, yn cael eu cynnwys fesul llys yn yr ymateb rhanbarthol priodol.

### **Llundain**

Llys Sirol Bow

Llys Sirol Lambeth

### **Canolbarth Lloegr**

Llys Ynadon a Llys Sirol Buxton

Llys Ynadon Grantham

Llys Ynadon Hinckley

### **Gogledd-ddwyrain Lloegr**

Llys Ynadon Consett

### **Gogledd-orllewin Lloegr**

Llys Ynadon a Llys Sirol Kendal\*

Llys Sirol Macclesfield

Llys Ynadon Macclesfield

Llys Ynadon a Llys Teulu Ormskirk

Llys Sirol Warrington

**De-ddwyrain Lloegr**

Llys Ynadon, Llys Sirol a Llys Teulu Aylesbury

Llys Ynadon a Llys Teulu Bury St. Edmunds a Llys y Goron Bury St. Edmunds\*

Llys Cyfun Chichester (Y Goron a Sirol)\*

Llys Ynadon, Llys Sirol a Llys Teulu Eastbourne\*

Llys Sirol a Llys Teulu Kings Lynn

Llys Sirol a Llys Teulu Tunbridge Wells\*

**Cymru**

Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir)

Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau\*

Llys Ynadon Caergybi\*

Llys Sifil a Theulu Llangefni

Llys Ynadon Prestatyn

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y bydd y llysoedd hyn yn cau fel y bwriadwyd iddynt.

### **Llundain**

Llys Ynadon Feltham

Llys Ynadon Greenwich

Llys Sirol Hammersmith (hen Lys Sirol Gorllewin Llundain)

Canolfan Gwrandawriad Tribiwnlys Pocock Street

Llys Ynadon Richmond-upon-Thames

Llys Ynadon Tottenham

Llys Ynadon Waltham Forest

Llys Sirol Woolwich

### **Canolbarth Lloegr**

Llys Ieuencid Birmingham

Llys Ynadon Burton-upon-Trent

Llys Ynadon Corby

Llys Sirol Kettering

Llys Ynadon Kettering

Llys Ynadon Sandwell

Llys Ynadon yr Amwythig

Llys Ynadon Skegness

Llys Ynadon Solihull

Llys Ynadon Stafford

Llys Ynadon Worksop

### **Gogledd-ddwyrain Lloegr**

Llys Sirol a Llys Teulu Halifax

Llys Ynadon a Llys Teulu (Calderdale) Halifax

Llys Ynadon a Llys Sirol Hartlepool

Llys Sirol Morpeth

Llys Ynadon, Llys Sirol a Llys Teulu Rotherham

Llys Ynadon, Llys Sirol a Llys Teulu Scunthorpe

Llys Ynadon Wakefield

### **Gogledd-orllewin Lloegr**

Llys Sirol Accrington

Llys Ynadon Accrington

Llys Sirol a Llys Teulu Bolton

Llys Ynadon a Llys Sirol Bury

Llys Sirol Oldham

Llys Ynadon Oldham

Llys Ynadon (Halton) Runcorn

Llys Ynadon St Helens

Llys Sirol Tameside

Llys Ynadon Trafford a Llys Sirol Altrincham

### **De-ddwyrain Lloegr**

Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (Acorn House) Basildon

Llys Ynadon a Llys Teulu Bedford a Mid Beds a Llys Sirol a Llys Teulu Bedford

Llys Ynadon a Llys Teulu Bicester

Llys Ynadon Chichester

Llys Sirol a Llys Teulu Colchester

Swyddfeydd Llys Sirol Colchester

Llys Ynadon Dartford

Llys Ynadon Dover

Llys Ynadon Harlow

Llys Ynadon, Llys Sirol a Llys Teulu Lowestoft

Llys Ynadon a Llys Teulu Redhill a Llys Sirol a Llys Teulu Reigate

Llys Sirol St Albans

Llys Ynadon a Llys Teulu Watford

Llys Ynadon Gorllewin Berkshire (Newbury)

**De-orllewin Lloegr**

Llys y Goron Barnstaple

Llys Ynadon Bournemouth

Tribiwnlys Rivershill House Cheltenham

Llys Ynadon, Llys Sifil a Llys Teulu Chippenham

Llys y Goron Dorchester

Llys Ynadon Fareham

Llys Ynadon Caerloyw

Llys Ynadon Gogledd Avon (Yate)

Llys Ynadon Stroud

Llys Ynadon Torquay

**Cymru**

Llys Barn Aberhonddu

Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr

Llys Sifil a Llys Teulu Castell-nedd a Phort Talbot

Llys Ynadon Pontypridd

Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton)

## Gweithredu

Mae sawl ffactor i'w hystyried cyn bod modd cau llysoedd a thriwilysoedd. Rydym wrthi'n datblygu cynlluniau gweithredu manwl i sicrhau bod pob cam angenrheidiol yn cael ei gymryd i darfu cyn lleied â phosib ar y busnes gweithredol a rhoi sicrwydd i'n defnyddwyr.

Rydym wrthi'n datblygu amserlen cau arfaethedig gyda'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad. Mae hyn yn rhoi syniad ynghylch pa bryd y bydd llysoedd yn debygol o fod yn gorffen darparu gwasanaethau wyneb-yn-wyneb i gwsmeriaid. Mae'r rhain yn ddangosol a gallant newid oherwydd rhesymau gweithredol. Byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i randdeiliaid yn lleol ynghylch pa bryd y bydd gwasanaethau'n dod i ben yn adeilad y llysoedd ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i hyn yn y llys.

Ein bwriad, lle bynnag y bo'n ymarferol, yw cau'r holl lysoedd a restrwyd yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Os byddwn yn dod ar draws materion nad oeddem wedi'u rhagweld yn ystod proses ddatblygu'r gwaith galluogi, mae'n bosib y bydd angen addasu ein cynlluniau a gyhoeddwyd. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn gwneud asesiad llawn o unrhyw effaith ar ddefnyddwyr cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Gallai addasiadau gynnwys, er enghraifft, newidiadau i amseriad cau'r llys neu'r triwilysoedd a newid yn lleoliad y baich gwaith o'r safle sy'n cau.

Bydd rhanddeiliaid cenedlaethol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau gweithredu wrth iddynt ddatblygu a gofynnir am eu mewnbwn pan fydd angen rheoli effeithiau uniongyrchol.

Ar lefel leol, bydd staff arweiniol rhanbarthol Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol pan fydd penderfyniad i gau yn effeithio'n uniongyrchol a byddant yn rhan o broses cynllunio'r gweithredu. Byddwn yn rhoi gwybod i randdeiliaid lleol eraill am gynlluniau wrth iddynt gael eu cadarnhau.

Ymgynghorir ag undebau llafur adrannol ynghylch effeithiau ar staff yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn ymgysylltu â'r holl staff yr effeithir arnynt gan y newidiadau er mwyn iddynt ddeall yr effeithiau hynny. Caiff pob newid ei reoli yn unol â'r egwyddorion a sefydlwyd yn Fframwaith Rheoli Newid Sefydliadol.



## **Egwyddorion ymgynghori**

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

## Atodiad A Rhestr o ymatebwyr

Yn ogystal â'r 33 aelod o'r cyhoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad cenedlaethol, cafwyd ymateb gan yr unigolion a'r sefydliadau canlynol a enwir:

Ymddiriedolaeth Gofal Anglia

Anthony Douglas, Prif Weithredwr CAFCASS

Cymdeithas Archifau a Chofnodion

Cyfarwyddwr Cyswllt Addaction

Swyddog Gorfodi Awdurdodedig yr Uchel Lys

Barwnes Newlove o Warrington, Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr

Canolfan Pro bono Ysgol y Gyfraith Prifysgol BPP

Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Cyfarwyddiaeth Cyfiawnder

Cyfreithwyr BWS

Heddlu Swydd Caergrawnt

Canolfan Materion Cyfreithiol Cymru, Prifysgol Aberystwyth

Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol

Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth

Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil

Y Cyngor Cyfiawnder Sifil

Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru

Y Barnwr Rhanbarth Ellis

Barnwr Rhanbarth Tribiwnlys Moss

Cyfreithwyr Emmersons

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Undeb FDA, Adran Gwasanaeth Erlyn y Goron

Grŵp GreenSquare

Ei Fawrhydi y Barnwr Bidder CF, Ysgrifennydd Mygedol, Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi

Ei Fawrhydi y Barnwr Sharpe CF, Cofiadur (Sifil a Theulu) a Dirprwy Farnwr yr Uchel Lys (Yr Adran Deulu)

Historic England, Rheolwr Ymgysylltu

Aelod staff GLITEM

Cyfreithwyr Hodge Jones & Allan

Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai

Y Barnwr Lane, Llywydd y Siambr Reoleiddio Gyffredinol

Y Barnwr Thompson ar ran y Barnwyr sy'n ymwneud â Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (SSCS)

Y Barnwr Wikeley, Llywydd Siambr (dros dro), Tribiwnlys Haen-gyntaf (Siambr lawndal y Lluoedd Arfog a Phensiynau Rhyfel)

JUSTICE

Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol

Strategaeth cefnogi ymgyfreithiwr drosto'i hun

Cymdeithas yr Ynadon

Ynadon o Fainc Sussex

Cymdeithas y Cyfreithwyr Manceinion

Cyfreithwyr Mayo Wynne Baxter LLP

Mr Ustus Charles ar ran yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol)

Cymdeithas Genedlaethol y Cyngorau Lleol

Cymdeithas Genedlaethol y Cyngorau Lleol, Rheolwr Polisi a Datblygu

Ynadon Cenedlaethol

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

Heddlu Gogledd Cymru

Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)

Private Parking Appeals Limited

Cymdeithas Ymgyfreithia Eiddo

Cyfreithwyr Rashid & Co

Resolution, Sefydliad cenedlaethol o gyfreithwyr teulu

Cymdeithas y Cyfreithwyr Rochdale

Shelter

Cyngor Dosbarth South Holland

Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi

Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol

Cyngor y Bar

Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Droseddol

Gwasanaeth Eryl y Goron

Cymdeithas Bar Cyfraith Teulu

Grŵp Hyde

Y Gwasanaeth Ansoffedd

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Uned Cymorth Personol

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Cymdeithas Barnwyr Rhan-amser y DU

Is-gadeirydd Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys

Cymorth i Ddiodefwyr

## Atodiad B Datganiad Effaith ar Gydraddoldeb

Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt); a
- Meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt).

Rhaid rhoi 'sylw dyledus' yng nghyd-destun y naw "nodwedd warchoddedig" sydd yn y Ddeddf Cydraddoldeb – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil (dim ond yng nghyd-destun gwahaniaethu anghyfreithlon), ail-aseinio rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ystyried sut mae'r cynigion polisi arfaethedig yn debygol o effeithio ar y nodweddion gwarchoddedig a chymryd camau cymesur i liniaru neu gyfiawnhau'r rhai mwyaf negyddol a hyrwyddo'r rhai positif.

### *Gwahaniaethu Uniongyrchol*

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym o'r farn nad yw'r polisi yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn yr ystyr a geir yn y Ddeddf Cydraddoldeb gan ei fod yr un mor berthnasol i bawb yr effeithir arnynt gan y Prosiect Ystadau yn y Rhaglen Diwygio; nid ydym yn credu y bydd y cynnig polisi yn golygu bod pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig berthnasol.

### *Gwahaniaethu Anuniongyrchol*

Ymhlith defnyddwyr llys, mae rhai grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, fel yr esbonnir isod, yn cael eu gorgynrychioli yn y cynigion. Ond, hyd yn oed pe byddai modd dangos bod yr effeithiau hyn, mewn ambell achos (er enghraifft, hyd amser taith i'r llys), yn achosi anfantais benodol, mae gweithredu'r diwygiadau'n cynrychioli ymateb cymesur i fodloni anghenion strategol y sefydliad.

Yr hyn rydym wedi'i wneud yw gweld pa grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, a'u cymharu â'r boblogaeth gyfan o ddefnyddwyr llys. Wrth wneud hyn, gallwn weld a fydd unrhyw grwpiau penodol o bobl o dan anfantais benodol yn sgil y cynigion. Gan nad oes llawer o ddata ar gael ar ddefnyddwyr GLITEM, rydym wedi cymryd eu bod yn gynrychioladol o'r boblogaeth gyffredinol (Cymru a Lloegr) a ddefnyddiwyd.

Rydym wedi asesu'r data sydd ar gael ar nodweddion rhyw, oed, anabledd, hil a chrefydd. Ar hyn o bryd, rydym o'r farn, ar lefel genedlaethol, fod y rheini sydd o gefndir gwyn yn cael eu gorgynrychioli mewn ardaloedd sy'n agos at Lysoedd y Goron (94%), yr ymgynghorir ynghylch eu cau, wrth eu cymharu â'r boblogaeth gyffredinol (86%). Gwelir hefyd fod y rheini o gefndir Mwslimaidd ac Asiaidd yn cael eu gorgynrychioli mewn

ardaloedd sy'n agos at lysoedd cyfun (15% o'i gymharu â 7%, a 12% o'i gymharu â 5%, yn y drefn honno). Rydym wedi cyflwyno crynodeb o'n dadansoddiad rhanbarthol yn Atodiad B.

Mae'r dystiolaeth a nodir yn Nhabl 6 yn awgrymu na fydd y rhaglen cau yn cael effaith anghymesur ar bobl sydd â'r nodweddion gwarchoddedig rhyw, oed ac anabledd. Hefyd, nid ydym o'r farn y bydd y rhaglen cau llysoedd yn cael effaith fwy ar y grwpiau penodol hyn wrth gymharu â'r boblogaeth genedlaethol i gyd. Serch hynny, byddwn yn parhau i asesu'r posibilrwydd y bydd y rhaglen cau yn gwahaniaethu yn erbyn y grwpiau hyn, gan dalu sylw penodol i unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu a/neu effeithiau o ran cydraddoldeb a welir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Gan nad oes llawer o ddata ar gael, nid ydym wedi llwyddo i asesu'r effaith ar y nodweddion gwarchoddedig eraill sef cyfeiriadedd rhywiol, ail-aseinio rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, a beichiogrwydd a mamolaeth. Ar ôl ystyried effaith y cynigion ar y grwpiau lle nad oes llawer o ddata ar gael, nid ydym wedi gweld unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon uniongyrchol nac anuniongyrchol yn codi o'r rhaglen cau arfaethedig.

Mae'r wybodaeth a nodir yn yr adran Effaith Amser Teithio (gweler siartiau 1-6 uchod) yn dangos bod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd y bydd y rhaglen cau llysoedd yn effeithio arnynt o fewn pellter teithio rhesymol i'r llysoedd y trosglwyddir y gwaith iddynt. Ond rydym yn sylweddoli y bydd nifer fach o bobl yn wynebu siwrneiau hirach i'r llysoedd newydd.

#### *Gwahaniaethu yn codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol*

I'r graddau y mae'r polisi hwn yn ymestyn i ddefnyddwyr llys anabl, rydym yn credu bod y polisi yn gymesur, gan roi ystyriaeth i'w nod. Mae'n dal yn bwysig gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag anableddau er mwyn sicrhau bod y cymorth priodol yn cael ei roi fel eu bod yn gallu cael mynediad at ein gwasanaethau.

Er bod cyfran y bobl anabl yr effeithir arnynt gan y cynigion yn cyfateb yn fras i gyfran y bobl anabl yn y boblogaeth gyfan, mae'r angen i deithio'n bellach (naill ai gyda char neu gyda thrafnidiaeth gyhoeddus) yn debygol o gael mwy o effaith ar bobl sydd ag anableddau penodol fel y rheini nad ydynt yn gallu symud llawer. Mae modd lliniaru'r effeithiau hyn, i ryw raddau, gan ddefnyddio rhai o'r camau lliniaru a nodir isod. Er enghraifft, os bydd mwy o wybodaeth ar gael ar-lein gall hyn leihau'r angen i deithio i'r llysoedd. Hefyd, gall rhoi adnoddau mewn canolfannau llysoedd mwy alluogi'r canolfannau hynny i gynnig cyfleusterau gwell i bobl anabl a'r rheini sydd â phlant.

Mae'r potensial y bydd mwy o effaith ar bobl anabl, pobl hŷn a merched beichiog wedi cael ei drin fel ffactor pwysig wrth asesu pa mor gymesur yw'r cynigion, a bydd hyn yn cael ei ail-ystyried cyn bod unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud yn derfynol.

#### *Aflonyddu ac erledigaeth*

Nid ydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn arwain at aflonyddu nac erledigaeth.

#### *Hyrwyddo cyfle cyfartal*

Rhoddwyd ystyriaeth i sut mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy fodloni anghenion defnyddwyr llys sy'n rhannu nodwedd benodol, lle mae'r anghenion hynny yn wahanol i anghenion y rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd

benodol honno. Wrth ddibynnu llai ar adeiladau Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM sydd â chyfleusterau gwael a manteisio ar ystad fwy modern sydd â gwell dulliau cyfathrebu, bydd hyn yn helpu i greu effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr, yn enwedig pobl ag anableddau.

#### *Meithrin perthynas dda*

Rhoddyd ystyriaeth i'r amcan hwn sy'n dangos nad yw'n debygol iawn o fod yn berthnasol i'r cynigion.

### **Adran 1. Defnyddwyr llys – effeithiau cenedlaethol**

Rydym wedi edrych ar yr effeithiau tebygol ar gydraddoldeb defnyddwyr llys ar lefel genedlaethol a rhanbarthol drwy gymharu'r boblogaethau sy'n agos i'r llysoedd y bwriedir eu cau a'r boblogaeth gyfan o ddefnyddwyr llysoedd.

Nid oes gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am nodweddion gwarchoddedig defnyddwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM. Yn yr asesiad hwn, rydym wedi cymryd y bydd pob defnyddiwr llys yn gynrychioladol o'r boblogaeth gyffredinol a ddefnyddir, gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2011. Rydym wedi cymharu nodweddion gwarchoddedig y boblogaeth hon â phoblogaethau rhanbarthau, awdurdodau unedol neu fwrdeistrefi Llundain sydd ger y llysoedd yr effeithir arnynt, yn ôl swyddogaeth y llys.

Ar lefel genedlaethol, mae nodweddion y rheini sy'n byw yn agos at y llysoedd yr ymgynghorir ynghylch eu cau yn eithaf tebyg i nodweddion poblogaeth gyffredinol defnyddwyr llys posibl (fel y nodir yn Nhabl 7 isod). Un eithriad i hyn yw effaith fwy cau llysoedd cyfun ar y boblogaeth Asiaidd a Mwslimaidd. Y rheswm dros hyn yw'r bwriad i gau llys cyfun yn Birmingham lle mae'r boblogaeth yn fawr (mae'n bosib y bydd y llys yn gwasanaethu mwy o bobl) ac mae maint y boblogaeth Asiaidd a Mwslimaidd yn fawr. Ym mhob enghraifft o gau llys, rhoddir sylw teg i nodweddion lleol.

**Tabl 1: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynnigion yn effeithio arnynt, wrth gymharu â'r boblogaeth genedlaethol**

		Poblogaeth leol					Poblogaeth genedlaethol
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Safleoedd sy'n cael eu cau		3	53	30	19	7	112
<b>Rhyw</b>	Gwryw	49%	49%	49%	49%	49%	49%
	Benyw	51%	51%	51%	51%	51%	51%
<b>Oedran</b>	0-15	19%	19%	19%	18%	21%	19%
	16-64	64%	64%	65%	67%	64%	65%
	65+	16%	17%	17%	15%	15%	16%
<b>Anabledd</b>	Anabledd	18%	19%	19%	19%	19%	18%
	Dim anabledd	82%	81%	81%	81%	81%	82%
<b>Hil</b>	Gwyn	91%	89%	88%	88%	75%	86%
	Cymysg	2%	2%	2%	2%	3%	2%
	Asiaidd	4%	5%	5%	4%	15%	7%
	Du	1%	3%	3%	4%	5%	3%
	Arall	1%	1%	1%	2%	2%	2%
<b>Crefydd</b>	Cristion	58%	62%	61%	58%	54%	59%
	Bwdhydd	0%	0%	0%	1%	0%	0%
	Hindŵ	1%	1%	1%	1%	1%	1%
	Iddew	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	3%	4%	4%	4%	13%	6%
	Sikh	0%	1%	0%	0%	2%	1%
	Crefydd arall	0%	0%	0%	0%	0%	0%



	Poblogaeth leol					Poblogaeth genedlaethol
	<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Dim crefydd	29%	25%	25%	30%	23%	26%
Ni nodwyd	7%	7%	8%	7%	7%	7%

Ceir crynodeb o'n hasesiad o'r effeithiau ar gydraddoldeb ar lefel ranbarthol yn adran 2. Mae'n dangos er bod yr effaith ar ranbarthau, ar y cyfan, yn gyson â'r effaith ledled y wlad, ceir enghreifftiau lle mae'r effaith yn fwy oherwydd demograffeg leol (h.y. ar raddfa lai na graddfa ranbarthol)

### Diffynyddion, dioddefwyr a thystion

Mae cyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder *Race and the Criminal Justice System 2012* a *Women and the Criminal Justice System 2013* yn dangos proffil hil a rhyw defnyddwyr llys a phroffil y rheini yn y system Cyfiawnder Troseddol. Maent yn dangos bod dynion a'r rheini o grŵp ethnig Du yn cael eu gorgynrychioli ymysg y diffynyddion yn y llysoedd troseddol wrth eu cymharu â'r boblogaeth gyffredinol a ddefnyddir. Mae'r data ar gyfer y rheini a ddedfrydir yn llysoedd y Goron a'r llysoedd ynadon rhwng 2012 a 2013 yn cadarnhau bod:

- Dynion yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rheini a ddedfrydir i garchar ar unwaith o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol 10 mlwydd oed a hŷn (92% o'i gymharu â 49%).
- Y rheini o'r grŵp ethnig Du hefyd yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rheini a ddedfrydir o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol 10 mlwydd oed a hŷn (8% o'i gymharu â 3%).

Nid oes ffynhonnell ddata gynhwysfawr ar nodweddion gwarchodedig dioddefwyr a thystion sydd o bosib yn defnyddio'r llysoedd troseddol. Ond, mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (2013-14) yn dangos bod y grwpiau canlynol o bobl yn cael eu gorgynrychioli fel dioddefwyr troseddau o'u cymharu â phawb a gafodd ei holi:

- Y rheini rhwng 16 oed a 24 oed (25% o'r holl ddiodefwyr o'u cymharu â 12% o bawb a gafodd ei holi)
- Mae 19% o oedolion heb fod yn wyn wedi dioddef trosedd, o'i gymharu â 17% o oedolion gwyn.

Er ei bod yn bosib bod grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol yn cael eu gorgynrychioli ymhlith dioddefwyr, ni allwn fesur a yw gor-gynrychiolaeth o'r fath yn wir am ddiodefwyr a thystion sy'n defnyddio'r llysoedd troseddol. Felly, bydd y casgliadau yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut gall y cynigion effeithio ar wahanol grwpiau o ddiodefwyr a thystion.

## Effaith ar ynadon

Mae data AD Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dangos bod ynadon yn hŷn ac yn fwy tebygol o ddod o grŵp ethnig Gwyn na phoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr a ddefnyddir. Mae data ar gyfer 31 Mawrth 2011 yn cadarnhau bod:

- Ynadon iau yn cael eu tangynrychioli: roedd 18% o'r ynadon sy'n gwasanaethu yn 49 oed neu iau, roedd 30% rhwng 50 a 59 oed ac roedd 52% yn 60 oed a hŷn. Y ffigurau ar gyfer y boblogaeth gyffredinol (rhwng 18 a 70 oed) yw 66%, 18% a 16% yn y drefn honno.
- Roedd y rheini o dras ethnig Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn cael eu tangynrychioli yn yr un modd: roedd 8% o ynadon sy'n gwasanaethu yng Nghymru a Lloegr wedi datgan eu bod yn dod o gefndir BAME. Mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrif diweddaraf fod grwpiau BAME yn cynrychioli 14% o'r boblogaeth gyffredinol (pob oed).
- Roedd ynadon anabl yn cael eu tangynrychioli hefyd: roedd 5% o ynadon sy'n gwasanaethu yng Nghymru a Lloegr yn ystyried bod ganddynt anabledd, tra bo 18% o'r boblogaeth gyffredinol (pob oed) yn ystyried bod ganddynt broblem iechyd tymor hir neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau beunyddiol llawer neu ychydig. Cydnabyddir bod gwahaniaethau yn y diffiniadau o anabledd.
- Yn unol â'r boblogaeth gyffredinol roedd 51% o ynadon sy'n gwasanaethu yng Nghymru a Lloegr yn fenywod.

## Grwpiau eraill yr effeithir arnynt

Grwpiau eraill yr effeithir arnynt o bosib gan y rhaglen cau llysoedd yw'r farnwriaeth a gweithiwr cyfreithiol proffesiynol. Mae ystadegau gan y Swyddfa Farnwrol<sup>5</sup> yn dangos bod barnwyr sy'n ddynion, y rheini o grŵp ethnig Gwyn a'r rheini sy'n 50 oed a hŷn yn cael eu gorgynrychioli o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r bar sy'n ymarfer a'r cyfreithwyr sy'n ymarfer yn fwy amrywiol, er mae dynion yn cael eu gorgynrychioli yn y ddau broffesiwn<sup>6,7</sup>.

O ran staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, bydd asesiadau cydraddoldeb yn cael eu cynnal gan adran AD GLITEM ar lefel Uned Busnes, a chaiff yr effaith ar nodweddion gwarchoddedig ei hasesu'n llawn ar ôl i'r effaith ar unigolion ym mhob safle o dan Opsiwn 1 gael ei nodi.

## Camau lliniaru

Rydym yn sylweddoli, wrth i'r llysoedd gau, y bydd angen i ni barhau i foderneiddio a gwella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau rheng flaen. Mae angen i ni barhau hefyd i ddarparu addasiadau rhesymol i ddefnyddwyr llys sydd ag anableddau er mwyn sicrhau

---

<sup>5</sup> <http://www.judiciary.gov.uk/publications-and-reports/statistics>

<sup>6</sup> <http://www.barcouncil.org.uk/about-the-bar/facts-and-figures/statistics/>

<sup>7</sup> <http://www.lawsociety.org.uk/representation/research-trends/annual-statistical-reports/>

mynediad at gyfiawnder. Mae sawl cam lliniaru rydym naill ai'n eu hystyried (neu ar waith gennym eisoes) a fydd yn helpu i leihau effaith y rhaglen cau llysoedd ar ddefnyddwyr llys, gan gynnwys:

- Mae'r holl ganllawiau, ynghyd â gwybodaeth am brosesau penodol, ar gael ar-lein drwy wefan Gov.uk a Justice. Bydd hyn yn cynnwys: y lleoliad, cyfarwyddiadau i gyrraedd y llys neu'r tribiwnlys perthnasol a'r cyfleusterau sydd ar gael yno, cyfryngu, sut mae gwneud hawliad, sut mae apelio, a sut mae cwyno. Ar ben hynny, mae gan y gwefannau hyn ddolenni defnyddiol ac maent yn cyfeirio defnyddwyr at wefannau perthnasol megis: Datrys, Cyfryngu Teuluol Cenedlaethol, Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, Canolfan Cyngor ar Bopeth, Consumer Direct, Ofcom ac Ofgem ymhlith eraill. Caiff gwybodaeth gyhoeddus ei hadolygu yn ôl yr angen.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i foderneiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau wyneb yn wyneb yn y Llysoedd Sifil a'r Llysoedd Teulu. Nod y gwaith hwn, yn benodol, yw:
  - Cyfeirio defnyddwyr at ffynonellau priodol o wybodaeth
  - Cynyddu defnydd o wasanaethau ar-lein
  - Osgoi teithiau diangen i gwsmeriaid i'r llys.
- Mae darparu canolfannau cyswllt a busnes ar gyfer rhai gwasanaethau (e.e. Canolfan Hawlio Arian y Llys Sifil) yn golygu bod modd cael gafael ar wasanaethau drwy'r post a thros y ffôn nes y gwrandawriad (os bydd angen gwrandawriad).
- Mae gwasanaethau ar-lein, fel Money Claims Online a Possession Claims Online yn cynnig mynediad ar-lein at wasanaethau hyd at gam y gwrandawriad (os bydd angen un).
- Caiff dulliau amgen o ddatrys anghydfod eu hannog lle y bo yn briodol ac mae hyn yn arwain at ddibynnu llai ar wrandawriadau llys ac yn osgoi'r angen i ddod i'r llys.
- Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer cwsmeriaid sydd ag anableddau yn y llysoedd yn unol â'r rhwymedigaethau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer anableddau. Mae canllawiau ar gael ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys pwynt cyngor canolog.
- Defnyddir cysylltiadau fideo ar gyfer llysoedd troseddol fel a ganlyn:
  - Gall tystion yr Heddlu ddefnyddio cysylltiadau byw i roi tystiolaeth mewn treialon. Mae'r cysylltiadau hyn ar gael mewn naw ardal System Cyfiawnder Troseddol a disgwylir y bydd rhagor yn cael eu creu yn ystod y flwyddyn hon.
  - Mae rhith-lysoedd wedi'u creu mewn pedair ardal ar gyfer gwrandawriadau rhagarweiniol. Bydd diffynyddion yn ymddangos gerbron y llys ynadon o orsaf yr heddlu drwy gysylltiad fideo.
  - Mae cysylltiadau fideo rhwng y carchar a'r llys yn rhoi cyfle i'r diffynyddion ymddangos gerbron y llysoedd ynadon a Llys y Goron o'r carchar.
  - Ceir cysylltiadau fideo ychwanegol yn y llys sy'n rhoi cyfle i dystion bregus roi'r dystiolaeth heb wynebu'r diffynnydd.

- Mae modd ystyried amseroedd cychwyn hwyrach ar gyfer gwrandawiadau os bydd cwsmer yn rhoi gwybod i'r canolfan gwrandawiadau bod teithio'n mynd i fod yn broblem.

Roedd rhai o'r ymatebion yn yr ymgynghoriad yn codi pryderon am fynediad at gyfiawnder, yn enwedig i'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig gan gynnwys yr henoed a'r rheini sydd ag anabledau. Roedd sylwadau'n cyfeirio at y ffaith y byddai teithio'n bellach i lys yn cael effaith anghymesur ar yr henoed, pobl anabl, a rhieni sengl, a nodwyd nad oedd yr asesiad o effaith yn yr ymgynghoriad yn ystyried y mater hwn sy'n ymwneud â chydaddoldeb.

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae sawl cam lliniaru ar waith a fydd yn rhoi sylw i'r pryderon ynghylch mynediad at gyfiawnder. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar-lein llawn ar wefan Gov.uk a Justice sy'n nodi'r lleoliad, cyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y llys neu'r triwlynlys perthnasol a'r cyfleusterau sydd ar gael yno, mwy o wasanaethau ffôn ac addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag anabledau yn y llysoedd.

Rydym yn sylweddoli bod mynd i'r llys yn gallu achosi straen mawr, yn enwedig i bobl fregus, pobl anabl a'r henoed. Rydym yn diwygio'r system fel na fydd angen i gymaint o bobl fynd i'r llys yn bersonol.

Mewn oes sydd fwyfwy ddigidol, ni fydd angen i ddefnyddwyr fynd i wrandawiadau yn bersonol bob tro er mwyn cael mynediad at y system gyfiawnder. Er ein bod eisoes wedi sefydlu ffyrdd gwahanol i ddefnyddwyr allu rhyngweithio gyda'n gwasanaethau, rydym yn awyddus i ehangu'r darpariaethau hyn i gynnig mwy o ddewis na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Er enghraifft, drwy ddefnyddio technoleg yn well, gan gynnwys fideo-gynadledda. I'r defnyddwyr hynny nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau drwy ddulliau digidol, byddwn yn sicrhau ein bod yn cadw dulliau eraill priodol.

I'r defnyddwyr llys hynny sy'n rhagweld y byddant yn cael problemau wrth deithio i leoliadau llys eraill, bydd y llysoedd yn ystyried ceisiadau i gynnal busnes gyda'r llys drwy ddulliau eraill, lle y bo'n bosibl. Mewn achosion eithriadol, mae'n bosib newid amseroedd cychwyn gwrandawiadau er mwyn i bobl sy'n ei chael yn anodd teithio allu cyrraedd yn hwyrach ond byddai hyn yn cael ei ystyried fesul achos unigol.

Yn yr Asesiad ar Gydraddoldeb a gynhyrchwyd ar gyfer y Weinyddiaeth Cyfiawnder ym mis Medi 2015, dangosir y gynrychiolaeth o nodweddion gwarchoddedig yn y llysoedd a'r triwlynlysoedd o'r data sydd ar gael. Mae canlyniadau'n dangos nad yw'r henoed yn cael eu gorgynrychioli yn y llysoedd troseddol a'r llysoedd teulu. Nid yw data ar gael ar nodweddion defnyddwyr llysoedd sifil neu driwlynlysoedd, ond nid yw data ar nodweddion pobl sy'n cael problem cyfiawnder teulu, sifil neu weinyddol yn dangos o gwbl bod yr henoed yn cael eu gorgynrychioli.

Yng nghyd-destun y rheini ag anabledau, nid yw'n amlwg o'r data ar gyfer llysoedd teulu a yw pobl ag anabledau yn cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli. Nid yw data ar gael ar nodweddion defnyddwyr llysoedd sifil neu driwlynlysoedd, ond mae data ar nodweddion pobl sy'n cael problem cyfiawnder teulu, sifil neu weinyddol yn dangos bod mwy o bobl ag anabledau yn dweud eu bod yn cael problem (er enghraifft, dywedodd 56% o'r rheini sydd ag anabledau iechyd meddwl eu bod wedi cael problem o'r fath). Er nad yw hyn yn dangos bod pobl anabl yn cael eu gorgynrychioli mewn llysoedd sifil a thriwlynlysoedd o'i gymharu â'r lefel genedlaethol, mae'n faes lle mae angen mwy o waith

ymchwil er mwyn gwella faint o ddata sydd ar gael. Nid yw gwybodaeth ar gael yn ôl statws anabledd mewn llysoedd troseddol.

## Casgliadau

Bydd y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd y bydd y rhaglen cau llysoedd yn effeithio arnynt o fewn pellter teithio rhesymol i'r llysoedd a fydd yn derbyn y gwaith. Mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o unigolion yn dal i gael teithiau rhesymol i'r llys i fynd i wrandawiaid, gan gynnwys gyda thrafnidiaeth gyhoeddus. Mewn achosion eithriadol, mae'n bosib newid amseroedd cychwyn gwrandawiaid er mwyn i bobl sy'n ei chael yn anodd teithio allu cyrraedd yn hwyrach ond byddai hyn yn cael ei ystyried fesul achos unigol.

Er bod teithiau hirach yn gallu effeithio ar rai pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, rydym o'r farn na fydd hyn yn debygol o arwain at anfantais benodol neu sylweddol i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr llys ac ystyried mai anaml iawn y byddant yn defnyddio gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae llawer o'r gwasanaethau sydd ar gael yn draddodiadol wrth ymweld â'r llys wyneb-yn-wyneb yn cael eu cynnig ar-lein. Mae modd cynnal ambell wrandawiad llys dros y ffôn neu gysylltiad fideo hefyd a chynigir dulliau eraill i ddefnyddwyr llys yn lle gwrandawiaid llys (cyfryngu). Mae'r holl gamau hyn yn lleihau'r angen i deithio i adeiladau llysoedd er mwyn cael mynediad at wasanaethau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Ar gyfer y rheini sy'n dal i orfod dod i'r llysoedd, cynigir addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag anableddau, a bydd camau eraill fel amseroedd cychwyn hwyrach yn lleihau'r effaith ar y rheini sy'n cael problemau gyda thrafnidiaeth.

Mewn nifer o lefydd mae cyfleusterau a gwasanaethau gwell yn cael eu darparu yn y llysoedd a fydd yn derbyn y gwaith. Yn gyffredinol felly rydym o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig i'r ystad ac unrhyw effaith a ddaw yn eu sgil yn ffordd gymesur o gyrraedd y nod cyfreithlon sef ystad llys effeithlon a fforddiadwy.

## Adran 2 – Effaith ar Gydraddoldeb yn Rhanbarthol

1. Ar lefel gronpus, mae'r rheini o gefndir ethnig Asiaidd sy'n byw wrth ymyl llysoedd cyfun yr effeithir arnynt yng nghanolbarth Lloegr yn cael eu gorgynrychioli i ryw raddau, o gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol (25% o'i gymharu â 8%). Mae Mwslemaid sy'n byw wrth ymyl llysoedd cyfun yr effeithir arnynt yng nghanolbarth Lloegr hefyd yn cael eu gorgynrychioli (22% o'i gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol, sef 5%)
2. Ar y llaw arall, mae cau llysoedd yn effeithio llawer mwy ar y rheini o gefndir ethnig Gwyn, o ran llysoedd yr ynadon mae'r ffigur yn 91%, ar gyfer llysoedd Sirol mae'r ffigur yn 95%, a 97% yw'r ffigur ar gyfer Tribiwilysoedd, o'u cymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol, sef 86%.
3. Ar draws swyddogaethau eraill y llys, a rhanbarthau eraill Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM, nid oes gwahaniaethau amlwg rhwng nodweddion gwarchoddedig y rheini sy'n byw yn lleol i'r llysoedd a'r triwilysoedd ym mhob rhanbarth, a phoblogaeth y rhanbarth yn gyffredinol (fel y dangosir yn Nhablau B.01-B.07).

**Tabl A.01: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynnigion yn effeithio arnynt, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM Llundain**

		Poblogaeth leol					Poblogaeth Llundain
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Triwilysoedd</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Safleoedd sy'n cael eu cau		0	5	3	1	0	9
<b>Rhyw</b>	Gwryw	Amh	50%	50%	50%	Amh	49%
	Benyw	Amh	50%	50%	50%	Amh	51%
<b>Oedran</b>	0-15	Amh	20%	20%	18%	Amh	20%
	16-64	Amh	70%	72%	74%	Amh	69%
	65+	Amh	10%	8%	8%	Amh	11%
<b>Anabledd</b>	Anabledd	Amh	14%	14%	14%	Amh	14%
	Dim anabledd	Amh	86%	86%	86%	Amh	86%
<b>Hil</b>	Gwyn	Amh	62%	55%	54%	Amh	60%
	Cymysg	Amh	5%	6%	6%	Amh	5%

	Poblogaeth leol					Poblogaeth Llundain
	<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Asiaidd	Amh	15%	17%	7%	Amh	17%
Du	Amh	13%	18%	27%	Amh	13%
Arall	Amh	5%	4%	6%	Amh	5%
<b>Crefydd</b>						
Cristion	Amh	49%	45%	53%	Amh	48%
Bwdhydd	Amh	1%	1%	1%	Amh	1%
Hindŵ	Amh	4%	2%	1%	Amh	5%
Iddew	Amh	1%	0%	0%	Amh	2%
Mwslim	Amh	12%	16%	9%	Amh	12%
Sikh	Amh	2%	1%	0%	Amh	2%
Crefydd arall	Amh	0%	0%	0%	Amh	1%
Dim crefydd	Amh	22%	24%	27%	Amh	21%
Crefydd heb ei nodi	Amh	8%	10%	9%	Amh	8%

**Tabl A.02: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynsoedd EM Canolbarth Lloegr**

		Poblogaeth leol					Poblogaeth Canolbarth Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Triwlynlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Safleoedd sy'n cael eu cau		0	11	4	1	1	17
<b>Rhyw</b>	Gwryw	Amh	49%	49%	49%	49%	49%
	Benyw	Amh	51%	51%	51%	51%	51%
<b>Oedran</b>	0-15	Amh	19%	19%	17%	23%	19%
	16-64	Amh	63%	63%	64%	64%	64%
	65+	Amh	19%	18%	19%	13%	17%
<b>Anabledd</b>	Anabledd	Amh	19%	19%	23%	18%	19%
	Dim anabledd	Amh	81%	81%	77%	82%	81%
<b>Hil</b>	Gwyn	Amh	91%	95%	97%	58%	86%
	Cymysg	Amh	2%	1%	1%	4%	2%
	Asiaidd	Amh	5%	2%	1%	25%	8%
	Du	Amh	2%	1%	1%	9%	3%
	Arall	Amh	1%	1%	0%	3%	1%
<b>Crefydd</b>	Cristion	Amh	65%	64%	64%	46%	60%
	Bwdhydd	Amh	0%	0%	0%	0%	0%
	Hindŵ	Amh	1%	0%	0%	2%	2%
	Iddew	Amh	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	Amh	2%	1%	1%	22%	5%
	Sikh	Amh	2%	1%	0%	3%	2%
	Crefydd	Amh	0%	0%	0%	1%	0%



Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr

	Poblogaeth leol					Poblogaeth Canolbarth Lloegr
	<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
arall						
Dim crefydd	Amh	23%	26%	27%	19%	24%
Crefydd heb ei nodi	Amh	7%	7%	7%	7%	7%

**Tabl A.03: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynnigion yn effeithio arnynt, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlnlysoedd EM Gogledd-ddwyrain Lloegr**

		Poblogaeth leol					Poblogaeth Gogledd-ddwyrain Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Triwlnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Safleoedd sy'n cael eu cau		0	5	5	6	0	16
<b>Rhyw</b>	Gwryw	Amh	49%	49%	49%	Amh	49%
	Benyw	Amh	51%	51%	51%	Amh	51%
<b>Oedran</b>	0-15	Amh	18%	18%	18%	Amh	19%
	16-64	Amh	64%	63%	66%	Amh	65%
	65+	Amh	17%	18%	16%	Amh	17%
<b>Anabledd</b>	Anabledd	Amh	22%	20%	21%	Amh	20%
	Dim anabledd	Amh	78%	80%	79%	Amh	80%
<b>Hil</b>	Gwyn	Amh	95%	95%	91%	Amh	91%
	Cymysg	Amh	1%	1%	1%	Amh	1%
	Asiaidd	Amh	3%	3%	4%	Amh	5%
	Du	Amh	0%	0%	2%	Amh	1%
	Arall	Amh	1%	1%	2%	Amh	1%
<b>Crefydd</b>	Cristion	Amh	67%	66%	61%	Amh	62%
	Bwdhydd	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Hindŵ	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Iddew	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Mwslim	Amh	2%	2%	4%	Amh	5%
	Sikh	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Crefydd	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%

Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

arall	Poblogaeth leol					Poblogaeth Gogledd-
	Dim crefydd	Amh	23%	25%	27%	Amh
Crefydd heb ei nodi	Amh	6%	7%	7%	Amh	7%

**Tabl A.04: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynnigion yn effeithio arnynt, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlnlysoedd EM Gogledd-orllewin Lloegr**

		Poblogaeth leol					Poblogaeth Gogledd-orllewin Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Triwlnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Safleoedd sy'n cael eu cau		0	8	5	0	0	13
<b>Rhyw</b>	Gwryw	Amh	49%	49%	Amh	49%	49%
	Benyw	Amh	51%	51%	Amh	51%	51%
<b>Oedran</b>	0-15	Amh	20%	19%	Amh	20%	19%
	16-64	Amh	64%	63%	Amh	64%	65%
	65+	Amh	16%	18%	Amh	16%	17%
<b>Anabledd</b>	Anabledd	Amh	19%	20%	Amh	19%	20%
	Dim anabledd	Amh	81%	80%	Amh	81%	80%
<b>Hil</b>	Gwyn	Amh	90%	92%	Amh	88%	90%
	Cymysg	Amh	2%	1%	Amh	1%	2%
	Asiaidd	Amh	7%	6%	Amh	9%	6%
	Du	Amh	1%	0%	Amh	1%	1%
	Arall	Amh	1%	1%	Amh	1%	1%
<b>Crefydd</b>	Cristion	Amh	66%	68%	Amh	66%	67%
	Bwdhydd	Amh	0%	0%	Amh	0%	0%
	Hindŵ	Amh	1%	0%	Amh	1%	1%
	Iddew	Amh	1%	0%	Amh	0%	0%
	Mwslim	Amh	6%	5%	Amh	7%	5%
	Sikh	Amh	0%	0%	Amh	0%	0%
	Crefydd	Amh	0%	0%	Amh	0%	0%

Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

arall	Poblogaeth leol					Poblogaeth Gogledd-
	Dim crefydd	Amh	20%	20%	Amh	19%
Crefydd heb ei nodi	Amh	6%	6%	Amh	6%	6%

**Tabl A.05: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynsoedd EM De-ddwyrain Lloegr**

		Poblogaeth leol					Poblogaeth De Ddwyrain Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Triwlynlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Safleoedd sy'n cael eu cau		1	11	5	5	2	24
<b>Rhyw</b>	Gwryw	49%	49%	49%	50%	48%	49%
	Benyw	51%	51%	51%	50%	52%	51%
<b>Oedran</b>	0-15	21%	19%	19%	18%	16%	19%
	16-64	64%	63%	63%	67%	59%	64%
	65+	15%	18%	18%	15%	25%	17%
<b>Anabledd</b>	Anabledd	13%	16%	18%	16%	17%	16%
	Dim anabledd	87%	84%	82%	84%	83%	84%
<b>Hil</b>	Gwyn	89%	91%	94%	91%	97%	91%
	Cymysg	2%	2%	2%	2%	1%	2%
	Asiaidd	6%	5%	2%	4%	1%	4%
	Du	2%	2%	1%	2%	0%	2%
	Arall	1%	1%	1%	2%	1%	1%
<b>Crefydd</b>	Cristion	61%	61%	60%	53%	66%	60%
	Bwdhydd	0%	0%	0%	1%	0%	0%
	Hindŵ	1%	1%	1%	1%	0%	1%
	Iddew	1%	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	4%	2%	1%	2%	0%	2%
	Sikh	0%	0%	0%	0%	0%	1%
	Crefydd	0%	0%	0%	0%	0%	0%

Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr

	Poblogaeth leol					Poblogaeth De Ddwyrain Lloegr
	<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
arall						
Dim crefydd	26%	27%	29%	35%	25%	28%
Crefydd heb ei nodi	7%	7%	8%	8%	8%	7%

**Tabl A.06: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynsoedd EM De-orllewin Lloegr**

		Poblogaeth leol					Poblogaeth De-orllewin Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Triwlynlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Safleoedd sy'n cael eu cau		1	7	3	5	2	18
<b>Rhyw</b>	Gwryw	Amh	49%	49%	50%	50%	49%
	Benyw	Amh	51%	51%	50%	50%	51%
<b>Oedran</b>	0-15	Amh	18%	19%	18%	17%	18%
	16-64	Amh	63%	63%	67%	68%	63%
	65+	Amh	19%	18%	15%	15%	20%
<b>Anabledd</b>	Anabledd	Amh	17%	16%	17%	17%	18%
	Dim anabledd	Amh	83%	84%	83%	83%	82%
<b>Hil</b>	Gwyn	Amh	95%	93%	90%	88%	95%
	Cymysg	Amh	1%	1%	2%	2%	1%
	Asiaidd	Amh	2%	4%	4%	6%	2%
	Du	Amh	1%	1%	3%	2%	1%
	Arall	Amh	1%	1%	1%	2%	1%
<b>Crefydd</b>	Cristion	Amh	62%	63%	54%	54%	60%
	Bwdhydd	Amh	0%	1%	1%	1%	0%
	Hindŵ	Amh	0%	1%	1%	1%	0%
	Iddew	Amh	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	Amh	1%	1%	3%	3%	1%
	Sikh	Amh	0%	0%	0%	1%	0%
	Crefydd	Amh	1%	0%	1%	1%	1%



Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

	Poblogaeth leol					Poblogaeth De-orllewin Lloegr
	<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
arall						
Dim crefydd	Amh	28%	26%	33%	33%	29%
Crefydd heb ei nodi	Amh	8%	7%	8%	7%	8%

**Tabl A.07: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynsoedd EM Cymru**

		Poblogaeth leol					Poblogaeth genedlaethol
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Triwlynlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
Safleoedd sy'n cael eu cau		1	6	5	1	2	15
<b>Rhyw</b>	Gwryw	49%	49%	49%	50%	49%	49%
	Benyw	51%	51%	51%	50%	51%	51%
<b>Oedran</b>	0-15	17%	18%	18%	19%	18%	18%
	16-64	65%	62%	62%	64%	62%	63%
	65+	18%	19%	21%	17%	20%	18%
<b>Anabledd</b>	Anabledd	23%	24%	24%	21%	23%	23%
	Dim anabledd	77%	76%	76%	79%	77%	77%
<b>Hil</b>	Gwyn	94%	98%	98%	97%	98%	96%
	Cymysg	1%	1%	1%	1%	1%	1%
	Asiaidd	2%	1%	1%	1%	1%	2%
	Du	1%	0%	0%	0%	0%	1%
	Arall	2%	1%	1%	0%	0%	1%
<b>Crefydd</b>	Cristion	55%	57%	61%	63%	58%	58%
	Bwdhydd	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Hindŵ	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Iddew	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	2%	0%	1%	1%	0%	1%
	Sikh	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Crefydd	0%	0%	0%	0%	0%	0%

Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

	Poblogaeth leol					Poblogaeth genedlaethol
	<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys Sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys Cyfun</i>	
arall						
Dim crefydd	34%	34%	29%	27%	32%	32%
Crefydd heb ei nodi	7%	8%	8%	8%	8%	8%



